**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 13**
**10 Chwefror 2011**
**Caerdydd**

**AGENDA**

Cynhelir 13[eg] Cyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn yr Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd (map o'r lleoliad i'w weld yma). Bydd te a choffi ar gael o 10:00 ymlaen.

| AMSER | RHIF PAPUR | TEITL | ARWEINYDD |
|---|---|---|---|
| 10:00 | **Ymgynnull, te/coffi** | | |
| 10:30 | 1 | **Croeso:** Cyflwyniad ac ymddiheuriadau | |
| 10:35 | 2 | **Prif bapur:** Sesiwn Adroddiadau'r Grwpiau Ecosystem | Tracey Lovering |
| 11:00 | 3 | **Prif bapur:** gweithgaredd gweithdy: Sesiwn Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd | Clive Walmsley |
| 12:00 | 4 | **Prif bapur:** Cymru Fyw – y camau nesaf | Morgan Parry/Andy Schofield |
| 12:40 | **CINIO – Dewch â phecyn bwyd os gwelwch yn dda** | | |
| 13:40 | 5 | **Cyflwyniad:** Grŵp Tacsonomig: Chwilod | Steve Bolchover |
| 13:50 | 6 | **Trafodaeth: Beth allwn ni ei wneud i helpu'r rhywogaethau hyn?** | |
| 14:00 | 7 | **Papurau i'w Nodi**<br>- **A:** Y Diweddaraf am Droseddu yn erbyn Bywyd Gwyllt<br>- **B:** iSpot<br>- **C:** Siarter Rhannu Data Amgylcheddol<br>- **D:** Adroddiad Cynnydd y Cynllun Prentisiaeth Cen<br>- **E:** Cynllun Gwobrwyo Swyddogion Cynllunio<br>- **F:** Gwaith Cynllunio PBC<br>- **G:** Newidiadau i'r Rhestr Adran 42 sydd wedi cael ei Chyhoeddi | Ian Guildford<br>Madeline Havard<br>HelenWilkinson<br>Trevor Dines<br>Rebecca Sharp<br>Sean McHugh<br>Trevor Dines |
| 14:45 | 8 | Adborth gan Bartneriaeth Arfordir a Môr Cymru | I'w gadarnhau |
| 14:55 | 9 | Adborth gan y Pwyllgor Sefydlog | David Parker /Diana Reynolds |
| 15:05 | 10 | Cadarnhau cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf | |
| 15:15 | 11 | Unrhyw fater arall | |
| 15:25 | 12 | Dyddiad y cyfarfod nesaf | |

| | |
|---|---|
| 15:30 | **Te prynhawn a gorffen** |

Mae gwasanaeth trên rheolaidd ar gael o Gaerdydd. Ceir manylion yn www.nationalrail.co.uk.

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 13**
**PAPUR 01**
**10 Chwefror 2011**

## Adroddiad y Grŵp Ecosystemau a'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau 2010

### *Llwyddiannau amlwg*

**Camau gweithredu:**

- Mae cyrff anllywodraethol a chyrff rheoleiddiol yng Nghymru yn llawer mwy ymwybodol o ddiben, swyddogaethau ac aelodaeth y Grwpiau Ecosystemau. Bellach, mae'r grwpiau'n gallu cysylltu'n uniongyrchol ag uwch-swyddogion perthnasol Llywodraeth y Cynulliad. Mae cynrychiolwyr academaidd allweddol wedi'u nodi ar gyfer pob grŵp, a byddant yn cael eu gwahodd i gyfrannu i'r grwpiau cyn bo hir.

- Mae camau sy'n flaenoriaeth wedi'u cwblhau ar gyfer rhai grwpiau cynefinoedd a rhywogaethau, tra bod eraill wrthi'n cael eu datblygu. Mae grwpiau wedi bod yn gweithio gyda Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol i nodi rhaglenni gweithredu lleol e.e. Grŵp Ecosystem Gwlyptiroedd yn ardaloedd Môn, Gwynedd ac Eryri.

- Mae'r Cadeiryddion yn cyfarfod yn rheolaidd, ac felly'n sicrhau bod trefniadau cydweithredu llwyddiannus ar waith o fewn a ledled Grwpiau e.e. mae partneriaeth o grwpiau anllywodraethol a chyrff cyhoeddus wrthi'n cydweithio i ddatblygu cais am arian allanol sylweddol ar gyfer prosiect 'Anifeiliaid Pori' yn y gorllewin, sy'n canolbwyntio ar gynefinoedd glaswelltir, rhostir a gwlyptir yr iseldir. Cafodd y prosiect ei lunio gan Grŵp Ecosystem Gwlyptiroedd, a'i gefnogi wedyn gan Grŵp Ecosystem Glaswelltir a Rhostir yr Iseldir.

- Mae'r Grwpiau'n cefnogi amryw o brosiectau e.e. prosiectau rheoli/adfer gwlyptir wedi'u hariannu gan Grant Bioamrywiaeth a phrosiect rheoli gweundir yr iseldir gan yr RSPB ar Ynys Môn. Cafwyd nifer o 'lwyddiannau bychain'; sy'n cael eu hystyried yn bwysig ar safleoedd mawr gan eu bod yn aml yn gweithredu fel cerrig camu ac yn sbarduno prosiectau mwy - Grŵp Ecosystem yr Ucheldir. Roedd camau gweithredu ar rywogaethau yn cynnwys cynnal arolwg sylweddol ar y gostyngiad yn niferoedd tegeirian y clêr (*Ophrys insectifera*). Mae Prosiect LIFE Corsydd Môn a Llŷn yn canolbwyntio ar reoli'r safleoedd hyn, ac yn enghraifft dda o sut y gellir defnyddio model y Grŵp Ecosystemau i reoli rhywogaethau a chynefinoedd hefyd.

- Mae'r prosiect mapio â blaenoriaeth ar waith, ac mae'r Grwpiau Glaswelltir a Rhostir yr Iseldir, a Gwlyptiroedd, wedi cymryd camau breision gyda hyn. Mae'n ffordd ragorol o dargedu prosiectau rheoli. Mae'r Grŵp Ecosystem

Coetiroedd yn ystyried y cyfleoedd i ddefnyddio technoleg LiDar a thechnegau eraill i asesu cyflwr coetiroedd.

- Mae Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau Cymru wedi canolbwyntio ar nodi a chadarnhau'r partneriaid blaen ar gyfer rhywogaethau s42 (parhaus). Nodwyd bod bylchau o ran adnoddau, sy'n cyfyngu ar y gallu i gyflenwi gwaith cadwraeth effeithiol ledled yr ystod lawn o rywogaethau sy'n flaenoriaeth.

- Mae pob Grŵp wedi cyfrannu at ddatblygu Polisi trwy gyfrwng Grŵp Polisi Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

- Mae'r holl Grwpiau wedi ymateb i waith datblygu ac ymgynghori y Fframwaith Amgylchedd Naturiol, trwy gyfrannu at y drafodaeth gefndir a thrwy ymgynghoriad Cymru Fyw. Neilltuwyd cryn dipyn o amser i ddatblygu cynllun Glastir, o ran amodau, pecynnau rhanbarthol, yr elfen wedi'i thargedu a nodi'r ardaloedd daearyddol ar gyfer yr elfennau haen uchaf. Cyfrannodd Cadeirydd y Grŵp Trefol a Thir Llwyd at waith Cymdeithas Ymchwil ac Arloesi'r Diwydiant Adeiladu o greu'r "Good Practice Guide for Transforming Previously Developed Land to Open Space", ynghyd â Gweithgor Cynefin Trefol Rhyngasiantaeth y DU a Fforwm Trefol Pwyllgor Dyn a'r Biosffer UNESCO UK.

## *Materion i'w hystyried*

### 1. Adnoddau a chwmpas y Grwpiau Ecosystemau

1.1. Mae rhai grwpiau wedi cael trafferth dod o hyd i Gadeiryddion Ecosystemau e.e. y Môr, cadeirydd newydd ar gyfer y Grŵp Ucheldir, yn bennaf oherwydd prinder unigolion â digon o brofiad a dylanwad i weithio ar sail Cymru gyfan. Mae'r rhai sy'n addas i'r rôl eisoes yn gweithio'n galed yn eu swyddi.

1.2. Nid oes gan y Grwpiau ddigon o gynrychiolwyr addas i'r diben e.e. mae'r Grŵp Ecosystem Arfordirol eisiau cynrychiolwyr o'r Comisiwn Coedwigaeth a'r Grwpiau Cynghori Arfordirol (Grwpiau Rheoli Traethlinau); mae'r Grŵp Tir Fferm Caeedig yn chwilio am gynrychiolwyr o'r cyrff anllywodraethol a'r undebau amaethyddol; mae'r Grŵp Morol yn gobeithio ehangu'r aelodaeth e.e. Uned Bysgodfeydd Llywodraeth y Cynulliad, yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, Ystad y Goron, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru.

1.3. Mae cwmpas y grwpiau'n amrywio'n fawr iawn, e.e. mae'r Grŵp Ecosystem y Môr, o gymharu â'r grwpiau tiriogaethol, yn cwmpasu'r holl gynefinoedd morol gan gynnwys pob rhywogaeth forol symudol ac ar waelod y môr, strwythurau a swyddogaethau ategol. Mae'r Grŵp Trefol a Thir Llwyd yn gweithio mewn maes cadwraeth newydd sy'n dal i ddatblygu e.e. dim ond yn ddiweddar y cytunwyd ar ddiffiniad o gynefin brithwaith agored ar lefel y DU. Bu rhywfaint o oedi o ran datblygu'r gwaith felly.

1.4. Cyfraniad salach a llai o gyfraniad gan lawer o aelodau e.e. grwpiau awdurdodau perthnasol mewn Safleoedd Morol Ewropeaidd, Grŵp Ecosystem y Môr lle mae 3 aelod craidd sydd â gormod o waith eisoes yn gorfod cyflwyno camau gweithredu oherwydd diffyg diddordeb eraill neu am nad yw'r aelodau'n gallu cael digon o amser gan eu cyflogwyr i gyfrannu at y

gwaith. Mae'r niferoedd sy'n mynychu cyfarfodydd y Grwpiau yn aml yn wael, gyda dim ond criw bach o aelodau craidd yn bresennol. Hefyd, ychydig o ddiddordeb a/neu werthfawrogiad sydd o ofynion cadwraeth strategol yn aml.

1.5. Mae'r grwpiau i gyd yn poeni'n gyffredinol am lefel yr adnoddau sydd ar gael iddynt nawr ac yn y dyfodol; mae'r holl aelodau gweithredol eisoes yn brysur gyda'u gwaith beunyddiol; nid yw aelodaeth o grŵp ecosystem yn rhan o ddisgrifiadau swyddi ac nid yw'n cael ei drin fel blaenoriaeth gan sefydliadau'r cynrychiolwyr yn aml e.e. nid yw'r rhan fwyaf o Grwpiau wedi gwneud fawr o gynnydd ar y prosiect mapio oherwydd blaenoriaethau eraill.

## 2. Ymgysylltu a chyfathrebu

2.1. Mae angen i Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ymgysylltu â'r cynlluniau gweithredu a dechrau nodi'r camau y gallant gyfrannu atynt. Cafwyd ymateb amrywiol hyd yma. Nod y Grŵp Ecosystem y Môr yw 'nodi'r prosiectau arwahanol â chanlyniadau pendant a fydd yn denu cefnogaeth rheolwyr a diddordebau sectoraidd'. Gallai Partneriaethau LBAP fabwysiadu'r rhain er mwyn cyflawni camau gweithredu lleol neu ranbarthol ymhellach.

2.2. Ni chafwyd ymateb hyd yma i unrhyw gamau gweithredu sy'n flaenoriaeth drafft a lansiwyd trwy ymgynghoriad ar y we, er gwaethaf cyhoeddusrwydd eang gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Mae'n bosibl nad oes llawer o flaenoriaeth yn cael ei roi i'r camau hyn. Mae'r diffyg diddordeb yn ddigalon a siomedig. Rydym yn poeni y gallai'r diffyg diddordeb hwn olygu nad oes fawr o ddiddordeb nac ymrwymiad i gyflwyno'r camau hyn.

2.3. Mae'n amlwg i'r Grwpiau bod cryn dipyn o gamddealltwriaeth neu ddiffyg dealltwriaeth/gwybodaeth am werth nwyddau a gwasanaethau ecosystemau i'r economi a'r gymdeithas.

2.4. Mae dulliau cyfathrebu'n ymddangos yn araf ac yn fater o bwys e.e. ni ddylem gymryd bod pob grŵp yn clywed neu'n mynd i'r afael â negeseuon oherwydd bod camau wedi'u cynnwys ar system BARS (System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth). Mae'r Grŵp Ecosystem y Môr wedi siomi'n fawr gyda'r ymateb hyd yma, ac yn teimlo nad yw pawb o bosibl yn deall y materion a heb fynd i'r afael â nhw ar y cyfan. Mae'r Grŵp yn mynd i'r afael â hyn gydag Uned Bysgodfeydd Llywodraeth y Cynulliad ac uwch-swyddogion Llywodraeth y Cynulliad.

2.5. Datblygu cynllun Glastir oedd prif ganolbwynt 2010, a threuliodd y Grwpiau Bioamrywiaeth gryn dipyn o waith ac amser yn datblygu amodau cynefinoedd ac ardaloedd daearyddol er mwyn canolbwyntio ar yr elfennau haen uwch e.e. ar gyfer bioamrywiaeth, carbon a maint/ansawdd y dŵr. Bu'r Grwpiau Ecosystemau tiriogaethol yn ystyried faint o fanteision sydd i fioamrywiaeth ar raddfa eang, ond mae amheuaeth eang iawn gan nad yw llawer o argymhellion y Grwpiau wedi'u mabwysiadu.

2.6. Rhan sylweddol o waith y Grwpiau yw cyfrannu i'r Agenda Fframwaith Naturiol, ac maent wedi cyflwyno ymatebion manwl a chynhwysfawr i'r ymgynghoriad Cymru Fyw. Bydd angen i'r canlyniad fynd i'r afael â gweithredu ar fioamrywiaeth ar raddfa fach a mawr.

## 3. Sylfaen dystiolaeth

3.1. Lle bo prinder tystiolaeth wyddonol amlwg yn atal polisïau neu fecanweithiau newydd neu ddiwygiedig rhag cael eu datblygu. Er bod yr aelodau'n ymwybodol o faterion/meysydd sy'n flaenoriaeth sydd angen mynd i'r afael â nhw a'r camau sydd angen eu rhoi ar waith, mae diffyg tystiolaeth wyddonol yn eu dal yn ôl e.e. blaenoriaeth Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd i fwrw ymlaen yn gyflym â chynlluniau trydan dŵr newydd, er nad oes digon o wybodaeth am effeithiau hynny ar gymunedau o blanhigion ceunant afonol. Mae'r cymunedau hyn yn cynnal cynefinoedd nad ydynt wedi'u diogelu o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad neu wedi'u rhestru fel rhywogaeth Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth, gan nad yw'r grŵp hwn wedi'i ystyried fel un dan fygythiad yn hanesyddol.

3.2. Yn yr amgylchedd morol y mae'r diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth mwyaf. Un o brif anghenion y Grŵp Tir Fferm Caeedig yw pennu cyflwr a faint o adnoddau sydd ar gael, ac mae angen i'r Grŵp Trefol a Thir Llwyd bennu cyflwr a maint Cynefinoedd Brithwaith Agored ar Dir a Ddatblygwyd yn Flaenorol.

## 4. Polisi a deddfwriaeth

4.1. Bydd y dull cadwraeth a'r dulliau cyflenwi sydd ar gael i'r Grwpiau Ecosystemau yn amrywio, ac yn dibynnu ar y rhai sydd eisoes ar gael a'r rhai sy'n datblygu (e.e. Fframwaith Amgylchedd Naturiol, Glastir, Polisi). Efallai y bydd angen rheoli gweithgareddau dynol ar gyfer rhai dulliau, yn hytrach na rheoli cynefinoedd yn uniongyrchol e.e. morol, ucheldir a threfol.

4.2. Amrywio'n sylweddol o ran hyd a lled e.e. pysgodfeydd. Er mwyn cyflwyno camau gweithredu, rhaid cael darpariaethau digonol ar waith i sicrhau bod modd eu cyflawni ar raddfa genedlaethol/rhanbarthol a/neu leol <u>neu</u> fod digon o ewyllys ac arian ar gael i nodi, pennu a sicrhau mecanweithiau darparu newydd.

4.3. Mae'r Gyfarwyddeb/Rheoliadau Cynefinoedd wedi'u gweithredu'n amrywiol e.e. o safbwynt yr amgylchedd morol.

4.4. Y llywodraeth sydd â'r awdurdod dros lawer o faterion a gweithgareddau, dan ddeddfwriaeth y DU. Mae'r ddeddfwriaeth wedi newid fesul tipyn dros amser, mewn ymateb i anghenion hanesyddol, ac felly'n gallu cyflwyno gofynion/dyletswyddau sy'n gwrthdaro i gyrff rheoleiddio; mae angen mynd i'r afael â'r rhain e.e. methiant rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol 2002 (tir heb ei drin ac ardaloedd lled naturiol) i ddiogelu cynefinoedd/rhywogaethau a warchodir (a hysbyswyd i lif gwaith Rheoleiddio'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol). Mae cylch gorchwyl cyrff cyhoeddus yn gallu achosi gwrthdaro mewnol lle bo meysydd gwahanol yn cyd-daro. Dylai datblygu'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol fynd i'r afael â'r gwrthdaro hyn a rhoi cyfeiriad clir i gyrff cyhoeddus er mwyn hwyluso'r dasg o flaenoriaethu a chydgysylltu'r ddarpariaeth, gyda'r Amgylchedd wrth wraidd penderfyniadau.

***Pwyntiau penderfynu***

- cymryd camau ar gymaint o’r materion hyn ag sy’n bosibl trwy bapur Cymru Fyw
- gofyn i’r tîm cymorth nodi unrhyw gam gweithredu ar gyfer y dyfodol sydd heb ei ddatrys, ar y cyd â Chymru Fyw.

Tracey Lovering
Swyddog Dysgu Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
25 Ionawr 2011

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 13**
**PAPUR 01: ATODIAD 1**
**10 Chwefror 2011**

**ADRODDIADAU CYNNYDD 2010 Y GRWPIAU ECOSYSTEM**

**Grŵp Ecosystem y Môr (MEG)**

Etholwyd Blaise Bullimore yn Gadeirydd y MEG yng nghyfarfod mis Mehefin 2010 wedi ymddiswyddiad amhoblogaidd Cangen Morol Llywodraeth y Cynulliad fel y Cadeirydd blaenorol. Mae gan y MEG gwmpas eang iawn o gymharu â'r grwpiau ecosystem daearol. Yn ogystal â chynefinoedd morol, mae'r MEG yn ymdrin â phob rhywogaeth sydd ar waelod y môr a'r rheiny sy'n symud yn y môr, a'r strwythurau a'r swyddogaethau sy'n eu cynorthwyo. Mae'r amgylchedd morol yn ddynamig dros ben ac er ei fod yn ddiraddedig, nid yw'n amgylchedd a reolir. Yr ethos cadwraethol yw y dylai'r amgylchedd morol gael llonydd gyda chyn lleied o ymyrraeth ddynol â phosibl; mae'r dull cadwraeth hwn yn gofyn am reoli gweithgareddau dynol yn hytrach na'r amgylchedd ei hun.

Mae graddfa'r materion cadwraeth yn amrywio'n eang, ond mae llawer yn parhau i fod ar raddfa eang iawn, fel pysgodfeydd. Adlewyrchir hyn yng nghytundeb y MEG i osod targedau ar y lefel ddaearyddol fwyaf priodol. Mae'r awdurdod i reoli nifer o'r materion a'r gweithgareddau yn nwylo'r llywodraeth o dan ddeddfwriaeth y DU. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn nodi swyddogaethau cyrff allweddol a noddir gan y llywodraeth, fel y Sefydliad Rheoli Morol (MMO) ac Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau (IFCAs); yng Nghymru, Llywodraeth y Cynulliad sy'n cyflawni'r swyddogaethau hyn. Fodd bynnag, er y nodir yr MMO a'r IFCAs fel 'awdurdodau perthnasol' yn Rheoliadau Cadwraeth 2010, nid felly Weinidogion Cymru.

Yn hanesyddol, roedd y rhan fwyaf o gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth (BAP) yn cynnwys popeth morol a allai fod yn bresennol ar arfordiroedd lleol - boed gan bartneriaethau lleol y gallu i wneud unrhyw beth pendant neu annibynnol neu beidio - *e.e.* ar gyfer hwyaid môr, môr-hwyaid. Ychydig iawn o arbenigedd morol sydd gan grwpiau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAP), ac mae gan lai fyth o swyddogion LBAP arbenigedd neu brofiad uniongyrchol perthnasol. Er hynny, mae yna frwdfrydedd am waith morol, er bod syniadau am yr amgylchedd morol yn tueddu i fod yn gul gan ganolbwyntio ar rywogaethau carismataidd yn unig. Yn ogystal â hyn, roedd y rhan fwyaf o gynlluniau gweithredu BAP morol lleol yn defnyddio'r model daearol 'traddodiadol' i osod targedau, er bod hyn yn ddull amhriodol ar gyfer y rhan fwyaf (os nad y cyfan) o gynefinoedd a rhywogaethau'r môr. Mae'r MEG wedi dechrau mynd ati i ailgyfeirio'r pwyslais yn fwy priodol.

Dyma rai o ddatblygiadau allweddol y MEG:

1. Penodiad cychwynnol Polisi Morol Llywodraeth y Cynulliad fel y Cadeirydd - wedi'i groesawu gan yr aelodau - gyda'r aelodau wedi'u canolbwyntio ar y gymuned gadwraethol. Mae'r Grŵp yn gweithio tuag at gynnwys mwy o aelodau er mwyn sicrhau llwyddiant, e.e. Pysgod Llywodraeth y Cynulliad, Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC), Ystâd y Goron, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Partneriaeth Arfordir a Môr Cymru.

2. Cyflawnir y gwaith trwy Grwpiau Gorchwyl a Gorffen e.e. nodi camau gweithredu polisi, nodi cynefinoedd/targedau spp/camau gweithredu.
3. Mae diwygiadau wedi'u gwneud i'r ddogfen Fframwaith *Cyflawni Camau Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth yng Nghymru,* er mwyn cwmpasu'r amgylchedd morol yn well.
4. Cyflwyno cyfres o gamau gweithredu polisi a oedd yn canolbwyntio ar faterion graddfa eang/lefel uchel:
   - Gweithredu'r Gyfarwyddeb/Rheoliadau Cynefinoedd yn wael o ran yr amgylchedd morol
   - Cyfraniad gwael sy'n dirywio gan aelodau o Grwpiau Awdurdod Perthnasol (RAGs) mewn Safleoedd Morol Ewropeaidd
   - Nodi'n glir yr awdurdodau perthnasol i bysgodfeydd wrth reoli safle Natura 2000 yn dilyn cyflwyno Mesur y Môr a Mynediad i'r Arfordir, diddymu'r Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr a mabwysiadu'r gwaith o reoli pysgodfeydd y glannau gan Lywodraeth y Cynulliad
   - Cynnwys mwy o rywogaethau morol ar Atodlen 5 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad.
   - Camddealltwriaeth eang neu ddiffyg dealltwriaeth/gwybodaeth am werth economaidd a chymdeithasol y nwyddau a'r gwasanaethau ecosystem a ddarperir i Gymru gan amgylchedd morol Cymru
   - Gwybodaeth wael am strwythur gwely'r môr o fewn moroedd tiriogaethol Cymru.
   - Methu â chynnwys blaenoriaethau Adran 42 BAP ddigon, os o gwbl, mewn asesiadau o'r effaith amgylcheddol (EIA) ac asesiadau amgylcheddol strategol (SEA), mewn amcanion cadwraeth ar gyfer nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC)/Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA), wrth roi hawliau a chaniatâd; a safonau gwael canllawiau'r EIA ar gyfer nodweddion morol.

Mae'r MEG wedi'i siomi'n arw â'r adborth hyd yn hyn. Nid yw'n glir a yw'r materion wedi'u deall, ond nid oes llawer wedi mynd i'r afael â nhw. Cafodd cynigion prosiect a gyflwynwyd gan y MEG ar gyfer grantiau prosiect bach tua diwedd 2009 eu gwrthod. Roedd hyn yn syndod ac yn siom gan ystyried eu synergedd gyda negeseuon Cymru Fyw (y Fframwaith Amgylchedd Naturiol).
Yn anffodus, mae cyfraniad yr aelodau'n wan iawn ac mae'r gwaith yn cael ei gyflawni'n bennaf gan garfan fechan ymroddedig o unigolion. Mae sawl aelod wedi'u llethu gan eu gwaith bob dydd ac yn ei chael hi'n anodd ymroi i gyflawni blaenoriaethau'r grŵp. Nid yw cyfran sylweddol o aelodau'r MEG yn gweithio'n broffesiynol ym maes gwaith morol ac ychydig iawn o ddiddordeb a/neu werthfawrogiad sydd ganddynt o ofynion cadwraeth strategol.

Mae'r gwaith o osod targedau a osodwyd ar gyfer cynefinoedd a rhywogaeth wedi dechrau canolbwyntio ar dargedau strategol gyda mesurau rhesymegol (e.e. mae'r targedau a osodir ar gyfer unrhyw gynefin BAP yn nodi bod yn rhaid i'r gweithgareddau a'r gweithrediadau gael eu rheoli mewn modd nad yw'n lleihau maint, ehangder ac ansawdd y cynefin, a'u bod yn cael eu rheoli mewn modd sy'n ei gwneud hi'n bosibl i'r cynefin gynyddu o ran maint, ehangder ac ansawdd. Felly, mesur y targed yn syml yw ie neu na). Mae yna gynlluniau gweithredu ar y gweill. Y nod yw canfod prosiectau arwahanol sydd â chanlyniadau diriaethol a fydd yn denu diddordeb rheolwyr a diddordeb sectorau – yn arbennig pysgodfeydd; OND, hefyd i ddarparu targedau pragmatig i wireddu dyheadau'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol sydd eisiau GWNEUD rhywbeth; AC i nodi camau gweithredu strategol ar gyfer Cymru gyfan. Mae yna angen amlwg i fod yn glir ac yn ddiamwys er mwyn osgoi cael ein llethu gan semanteg terminoleg a cholli golwg ar ein

hamcanion. Mae'n anodd sicrhau cyfraniad Pysgodfeydd Llywodraeth y Cynulliad. Er gwaetha'r risgiau amlwg, mae yna angen clir i ddefnyddio'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol i ehangu gorwelion aelodau a rheolwyr morol â syniadau cul.

**Blaise Bullimore, Cadeirydd**

**Grŵp Ecosystem Arfordirol (CEG)**

Mae gan y grŵp gynrychiolaeth gymharol dda o sefydliadau cadwraeth anllywodraethol, ond yn ogystal ag Asiantaeth yr Amgylchedd, rydym angen mwy o gyfraniad gan gyrff rheoleiddio eraill fel y Comisiwn Coedwigaeth a Grwpiau Cynghori Arfordirol (Grwpiau Rheoli Traethlin). Rydym hefyd angen mwy o gynrychiolwyr o'r grwpiau LBAP arfordirol. Mae presenoldeb wedi bod yn wael mewn ambell i gyfarfod, ond rydym wedi gwneud cynnydd. Rydym wedi cytuno ar y blaenoriaethau o ran camau gweithredu fwy neu lai, ond mae angen rhoi'r drafft diweddaraf o'r Fframwaith Gweithredu ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

Y flaenoriaeth nesaf yw troi cynigion yn gamau gweithredu ar lawr gwlad, cam na lwyddwyd i'w gyflawni rhyw lawer ym mhroses flaenorol y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, a dyma fydd yn mesur effeithlonrwydd y grwpiau hyn. Fodd bynnag, mae yna bryder naturiol ynghylch lefelau'r adnoddau a fydd ar gael i'r grŵp yn y dyfodol. Yn yr un modd â grwpiau eraill, mae amser wedi'i neilltuo i ddatblygu Glastir ac rydym wedi trafod cynigion y Fframwaith Amgylchedd Naturiol, ond, efallai gan fod sefydliadau'r cynrychiolwyr yn ymwneud ag ymgynghoriad y Fframwaith, mae aelodau wedi bod yn gyndyn i ddarparu sylwadau penodol. Yn olaf, mae'r gwaith o fapio'r blaenoriaethau bioamrywiaeth ar gyfer y parth arfordirol wrthi'n cael ei ddatblygu, a bydd yn cael blaenoriaeth yng Nghyngor Cefn Gwlad Cymru yn yr wythnosau i ddod.

**Peter Rhind, Cadeirydd**

**Grŵp Ecosystem Dŵr Croyw (FESG)**

Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys nifer fawr o bobl sy'n dewis derbyn cyfathrebiadau a thrafodion y grŵp; mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi ymuno'n ddiweddar.

Mae'r grŵp wedi cwblhau'r camau gweithredu ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd dŵr croyw, gyda phob un wedi'i gytuno bellach (82 cam gweithredu). Ni dderbyniodd y grŵp unrhyw sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r FESG wedi cynhyrchu 20 Cam Gweithredu â Blaenoriaeth i bawb ganolbwyntio arnynt, sy'n amrywio o un ardal ddaearyddol i'r llall, e.e. rhywogaethau â blaenoriaeth. Mae'r Camau Gweithredu â Blaenoriaeth wedi'u hanfon i bob grŵp LBAP, a fydd yn gallu gweithredu fel eiriolwyr. Mae rhai o'r camau'n rhai tymor byr, tra bo eraill yn rhai hirdymor sy'n gweithio tuag at dargedau 2020. Caiff y camau gweithredu eu cyflawni fel rhaglen dreigl, ac rydym yn mynd i'r afael â thua 8 cam gweithredu'r flwyddyn ar hyn o bryd. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn edrych ar y posibilrwydd o gael gwared â/lleihau planhigfeydd, coed conwydd o ddalgylch 15 llyn sy'n sensitif i asid sy'n cyfateb â 600 hectar a fydd yn llesol i 100 hectar o gynefinoedd llyn, ac sydd â'r potensial i greu cynefinoedd eraill fel gweundiroedd a choetiroedd collddail.

Mae'r gwersi a ddysgwyd hyd yma'n ymwneud yn bennaf â chyfathrebu, e.e. ni ddylem gymryd yn ganiataol, am fod camau gweithredu ar y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth, bod y negeseuon yn cael eu clywed na bod rhywun yn mynd i'r afael â nhw. Rhaid i ni hefyd ystyried ein geiriad a'n hamseru'n ofalus, e.e. mae'n debygol y bydd corff amgylcheddol newydd yn cael ei sefydlu o ganlyniad i'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol. Mae'r FESG bellach yn ceisio cael cynrychiolwyr o Ddŵr Cymru i ddod i'w gyfarfodydd.

**Tristan Hatton-Ellis**

## Grŵp Ecosystem Gwlyptiroedd (WEG)

Mae'r Grŵp Ecosystem Gwlyptiroedd yn ymwneud â phedwar cynefin gwlyptir yr iseldir (cyforgorsydd, ffeniau, gwelyau cors gwlyb a chorsydd pori), enghreifftiau o orgorsydd yr iseldir, a rhywogaethau â blaenoriaeth sy'n dibynnu ar y cynefinoedd hyn. Yn ei gyfarfod cyntaf, cytunodd y grŵp i sefydlu prosiect 'Anifeiliaid Pori' ar gyfer y Gorllewin (Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro) fel blaenoriaeth allweddol a datblygodd hyn yn gyflym i fod yn brosiect ar y cyd gyda'r Grŵp Ecosystem Glaswelltir a Gweundiroedd. Mae hyn wedi arwain at bwyslais cryf ar laswelltir a fydd yn darparu'r matrics ar gyfer y prosiect hwn, gan adlewyrchu cymeriad cymharol wasgaredig gwlyptiroedd yr iseldir. Mae PONT (Charles Morgan), ynghyd ag aelodau eraill o'r grŵp llywio, wedi gweithio'n ddiwyd i ddatblygu'r prosiect hwn sydd bellach ar fin ennill cynnig ariannu mawr allanol.

Mae'r grŵp wedi canolbwyntio hefyd ar weithio gyda'r LBAPs yn y fforymau LBAP rhanbarthol ac yn unigol gydag LBAPs Ynys Môn, Gwynedd ac Eryri, i ganfod rhaglenni gweithredu lleol ar gyfer gwlyptiroedd. Canolbwynt allweddol i bob ardal yw'r gwaith o greu rhestr derfynol ar gyfer gwlyptiroedd lleol a chynorthwyo gyda datblygiad mentrau pori lleol eraill.

Datblygu Glastir oedd y prif ffocws yn 2010, gyda gwaith sylweddol yn cael ei wneud ar ddatblygu'r amodau a'r ardaloedd daearyddol ar gyfer pwysleisio'r elfen haen uchel ar gyfer bioamrywiaeth, carbon a chyfanswm/ansawdd dŵr.

Talodd cymorth ariannol grant bioamrywiaeth am ddau brosiect rheoli/adfer gwlyptir yn 2010, Cors Nelson (sy'n ffen mewn gwirionedd) ym Morgannwg, ac adfer cyforgors Covert Coch yng ngwarchodfa'r RSPB yn Ynys Hir. Diolchwn i Nick Hudson (Cyngor Cefn Gwlad Cymru), Dick Squires (RSPB) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili am arwain y prosiectau hyn.

Mae cynlluniau gweithredu drafft wedi'u cwblhau ar gyfer cyforgors iseldir, ffen a chorsydd pori arfordirol a gorlifdir.

Roedd y camau gweithredu o ran rhywogaethau'n cynnwys arolwg mawr o ddirywiad tegeirian y clêr (*Ophrys insectifera*) ar ei ddau brif safle yng Nghymru ar Ynys Môn a chychwyn astudiaeth fioleg ar boblogaeth i asesu dynameg a recriwtio'r boblogaeth. Mae'r degeirian y clêr wedi'i chyfyngu'n llwyr i ffeniau yng Nghymru ac mae'r gwaith o dargedu gwaith rheoli ar ei safleoedd yn bosibl trwy brosiect LIFE Ynys Môn a Phen Llŷn. Mae hon yn enghraifft dda o sut y gellir cymhwyso model y Grŵp Ecosystem i'r gwaith o reoli rhywogaethau a chynefinoedd.

Mae darparu mewnbwn ar gyfer agenda'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol wrth iddi ddatblygu wedi bod yn weithgaredd mawr, gydag ymateb cynhwysfawr a manwl wedi'i ddarparu ar gyfer ymgynghoriad Cymru Fyw. Roedd hi'n bwysig gwneud hyn o safbwynt potensial gwlyptiroedd i gyflwyno gwasanaethau ecosystem, a'r angen i gadw ffocws bioamrywiaeth cadarn ar safleoedd sy'n rhai bach yn aml ac sydd angen ymyrraeth sylweddol wedi degawdau o esgeulustod.

Mae gwaith wedi dechrau ar y prosiect mapio â blaenoriaeth, a gellir cael mapiau wedi'u datblygu'n gymharol dda ar gyfer ffeniau a chyforgorsydd yr iseldir.

Mae llawer o waith y grŵp wedi cael ei sbarduno gan garfan fechan o unigolion. Mae angen cryfhau gallu'r grŵp fel y gall gwaith mwy dwys gael ei wneud ar draws llwyfan ehangach.

**Peter Jones, Cadeirydd**

**Grŵp Ecosystem Tir Fferm Caeedig (EFEG)**

Mae'r EFEG wedi cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ers ei sefydlu ym mis Ionawr 2009. Newidiodd y grŵp ei enw o Dir Fferm Iseldir i 'caeedig' er mwyn adlewyrchu lleoliad ei gynefinoedd â blaenoriaeth yn well: perthi, perllannau traddodiadol a ffiniau caeau âr.

Mae'r targedau ar gyfer perthi a ffiniau caeau âr wedi'u hadolygu a'r newidiadau wedi'u cytuno, ond nid yw'r rhain wedi'u gweithredu ar y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth eto gan ein bod yn aros am ganlyniadau'r broses Cymru Fyw. Mae perllannau traddodiadol yn gynefin newydd ac mae grŵp Perllannau Traddodiadol y DU wedi cynhyrchu diffiniad a thargedau ar gyfer y DU. Mae'r grŵp wedi derbyn y rhain heb newidiadau am y tro.

Mae cynlluniau gweithredu drafft wedi'u cynhyrchu ar gyfer y tri chynefin, a chafwyd ymgynghoriad ar y rhain mewn gweithdai a gynhaliwyd gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ym mis Mai 2010. Byddant yn cael eu cwblhau'n fuan a'u cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Oherwydd natur wasgaredig y cynefinoedd hyn, cyngor a chyfathrebu yw sail y camau gweithredu'n bennaf, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod dulliau arolygu a monitro cyson yn cael eu defnyddio ledled Cymru - a sefydlu maint a chyflwr yr adnodd yw un o'r anghenion mwyaf.

Gwaith pellach a wnaethpwyd gan y grŵp:

- Ystyriwyd opsiynau, pecynnau rhanbarthol ac elfen a dargedir Glastir, a'u manteision i'r cynefinoedd â blaenoriaeth a chyflwynwyd sylwadau i'r grŵp datblygu.
- Adolygwyd yr anghenion polisi – mae ychydig o gynnydd wedi'i wneud, er enghraifft, o ran gadael Tir Gofal.
- Rhoddwyd mewnbwn a chefnogaeth i'r ceisiadau i gael grantiau Bioamrywiaeth yn 2009/10 a 2010/11.
- Mae is-grŵp wedi cyfarfod i gytuno ar gynhyrchu blaenoriaethau gofodol ar gyfer camau gweithredu i'r tri chynefin.
- Trafodwyd swyddogaeth y grŵp yn y dyfodol o dan Cymru Fyw ac ymatebwyd i'r ymgynghoriad.

Daeth mwy o bobl nag erioed i'r grŵp pan oedd Glastir yn cael ei drafod, ac ers hynny, mae wedi crebachu i graidd bychan ond perthnasol ac effeithiol o aelodau, sydd wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r gwaith. Gall y diffyg cyfranogiad arafu'r cynnydd ar adegau, a rhoi mwy o straen ar y rheiny sydd yn cyfrannu. Byddai'n fuddiol iawn pe bai mwy o sefydliadau anllywodraethol ac undebau ffermio'n cyfranogi, yn enwedig os yw cylch gwaith y grŵp yn ehangu.

**Caryn Le Roux, Cadeirydd**

**Grŵp Ecosystem y Glaswelltir a Rhostir yr Iseldir (LHGEG)**

Yn 2010, gadawodd yr ysgrifenyddes Juliet Hynes i ymuno â Lloegr Naturiol. Roedd y grŵp yn drist i'w cholli a dymunwyd lwc dda iddi yn ei swydd newydd. Penodwyd Alys Edwards i gymryd lle Juliet, ac mae wedi bod yn hynod effeithiol yn ein rhoi ar waith a threfnu ein cyfarfodydd.

Mae'r cynlluniau gweithredu ar gyfer holl gynefinoedd y glaswelltir a rhostir yr iseldir, ar wahân i'r glaswelltir metalaidd newydd, wedi'u cwblhau a'u harddangos ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar gyfer ymgynghoriad. Ni chawsom yr un ymateb gan LBAPs na phartneriaid felly bydd y cynllun gweithredu'n cael ei lwytho maes o law ar y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth. Rhoddwyd y gwaith ar y cynlluniau gweithredu o'r neilltu am ychydig er mwyn gwneud yr ymarfer mapio â blaenoriaeth ac mae angen i ni bellach adolygu pa gamau y cytunwyd arnynt a pha gynnydd sydd wedi'i wneud. Gofynnwn i bob partner ac LBAP gofrestru ar gyfer y camau gweithredu ar y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth.

Rydym wedi parhau i gydweithio â'r Grŵp Gwlyptiroedd ar brosiect pori ar gyfer Gorllewin Cymru. Fel rhan o Brosiect Achub ein Dolydd Gwych y DU, rydym newydd glywed ein bod wedi llwyddo i gael grant datblygu am flwyddyn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Gobeithir y bydd PONT yn arwain y prosiect yng Nghymru. Ar yr un pryd, rydym yn cyfrannu at brosiect LIFE newydd sy'n seiliedig ar safleoedd allweddol o laswelltir corsiog a brithegion y gors yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r grŵp wedi gwneud cynnydd ardderchog gyda'r prosiect mapio â blaenoriaeth; rydym wedi mapio'r meysydd sy'n flaenoriaeth ac wedi nodi'r materion allweddol a'r gwaith sydd angen ei wneud i fynd i'r afael â'r rhain. Rydym wrthi'n tacluso'r mapiau ac yn ysgrifennu crynodeb fer ar gyfer pob prosiect. Bydd y rhain yn cael eu dosbarthu ar gyfer ymgynghoriad ehangach.

Rydym wedi llwyddo i gefnogi sawl prosiect y llynedd trwy Grant Bioamrywiaeth Llywodraeth y Cynulliad, er enghraifft, gwaith yr RSPB o reoli rhostir yr iseldir ar Ynys Lawd ym Môn. Eleni, mae gennym lwyth arall o brosiectau da i'w hargymell i Amgylchedd Cymru i'w hariannu gan Lywodraeth y Cynulliad.

**Jan Sherry, aelod o'r LHGEG**

## Cynnydd Grŵp Ecosystem yr Ucheldir (UESG)

Mae'r UESG yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn, gyda'r camau gweithredu'n cael eu cyflawni fel arfer gan grŵp craidd o bobl. Mae'r camau gweithredu sy'n flaenoriaeth i bedwar prif gynefin yr ucheldir bellach wedi'u cytuno a gellir eu gweld ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Mae tri Cynefin yr Ucheldir newydd wedi'u hychwanegu at restr BAP yn ddiweddar ac mae cynlluniau gweithredu ar y gweill ar hyn o bryd ar lefel Cymru ar eu cyfer. Mae'r camau hyn yn amrywio o faterion generig i rai sy'n ymwneud â'r safle'n benodol sy'n gallu canolbwyntio'n llwyr ar reolaeth briodol er mwyn gwella cynefinoedd yr ucheldir.

'Llwyddiannau bach' a gafwyd yn bennaf o ran bioamrywiaeth eleni, sy'n gallu bod yn bwysig ar safleoedd mawr gan eu bod yn aml yn gamau bach ac yn sbardun ar gyfer prosiectau mwy o faint. Mae datblygiad Glastir wedi mynd â chryn dipyn o amser y grŵp yn y misoedd diwethaf, yn ogystal â'r ymgynghoriad ar y Fframwaith Amgylchedd Naturiol, sydd angen ymateb grŵp. Mae'r UESG hefyd wrthi'n cymharu 10 prosiect â blaenoriaeth, gyda'r arweinyddion wrthi'n cynhyrchu crynodeb fer gyda map cefnogol; bydd y rhain yn helpu i lywio'r blaenoriaethau gwaith yn y dyfodol ar yr ucheldir yn y tymor byr. Nodwyd bod angen i'r Grŵp Rhywogaethau ystyried ymhellach a ydynt yn mynd i integreiddio camau gweithredu'r rhywogaethau gyda chamau gweithredu'r cynefinoedd a sut byddant yn gwneud hyn. Mynegwyd

rhywfaint o bryder ynghylch lefel adnoddau'r grŵp a'r ymrwymiad i gyflawni cynnydd yn y dyfodol.

**Barbara Jones, Cadeirydd**

**Grŵp Ecosystem Trefol a Thir Llwyd (UBEG)**

Ni lwyddodd y Grŵp Ecosystem Trefol i wneud llawer o gynnydd yn 2010 gan nad yw'r diffiniad o'n Cynefin â Blaenoriaeth: Cynefinoedd Brithwaith Agored ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (OMHoPDL) wedi'i gadarnhau eto trwy'r Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi. Golygodd hyn na allem ni gynllunio ar gyfer arolwg Cymru gyfan ar faint a lleoliad y cynefin - a hebddo mae'n amhosibl i ni benderfynu ar safleoedd â blaenoriaeth i'w gwarchod yn ffurfiol.

Wedi dweud hynny, roedd y grŵp yn falch o dderbyn adroddiad terfynol Arolwg Sylfaenol Gwent o Dir Llwyd a oedd yn ceisio defnyddio'r diffiniad drafft o'r cynefin i ganfod darpar safleoedd OMHoPDL yng Ngwent. Cafodd yr astudiaeth ei chwblhau gyda chymorth grant gan Lywodraeth y Cynulliad a nodwyd 640 safle posibl gyda 115 o'r rhain â'r potensial o fodloni'r meini prawf drafft ar gyfer y Cynefin â Blaenoriaeth. Gallodd yr arolwg wneud prawf maes o'r diffiniad drafft o'r cynefin ac adrodd yn ôl i DEFRA ar bwyntiau i wella'r diffiniad hwnnw.

Cyflwynodd y grŵp ei hunan sylwadau i DEFRA ar y diffiniad drafft ar bob cam o'r broses ymgynghori ac, o ganlyniad, rydym yn credu bod swbstradau glo'n cael eu cynnwys yn well yn y diffiniad a gyflwynwyd i'r Grŵp Adrodd a Gwybodaeth Bioamrywiaeth (BRIG) i'w gymeradwyo. Er na allai'r grŵp wneud unrhyw gynnydd sylweddol o safbwynt cynefin â blaenoriaeth, roedd yn gyfle i gyfnewid gwybodaeth ymhlith aelodau a bu'r grŵp yn parhau i gasglu gwybodaeth a fydd o ddefnydd wrth chwilio am enghreifftiau o gynefinoedd â blaenoriaeth yn y dyfodol.

Cyflwynwyd sylwadau yn ystod y gwaith o ddatblygu'r adroddiadau ar gyfer y Fframwaith Amgylchedd Naturiol, a chyflwynodd y cadeirydd sylwadau ar yr ymgynghoriad ar y Fframwaith. Yn ogystal â hyn, cyfrannodd y cadeirydd at gynhyrchu'r "Good Practice Guide for Transforming Previously Developed Land to Open Space" y Gymdeithas Ymchwil ac Arloesedd yn y Diwydiant Adeiladu, yn ogystal â Gweithgor Cynefinoedd Trefol Rhyngasiantaeth y DU a Fforwm Trefol Pwyllgor Dyn a'r Biosffer (MaB) UNESCO y DU.

Yn y flwyddyn i ddod, bydd y grŵp yn cysylltu â Fforwm Seilwaith Gwyrdd Trefol Cymru ac yn ehangu ei ffocws i'r ecosystem drefol ehangach. Os bydd mwy o oedi o ran derbyn y diffiniad terfynol o gynefin gan y DU, bydd hefyd yn gofyn i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru gymeradwyo'r diffiniad drafft o Gynefin â Blaenoriaeth i'w ddefnyddio yng Nghymru. Ar ôl cael diffiniad wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol, bydd y grŵp yn edrych ar ffyrdd o ganfod maint, lleoliad a safon OMHoPDL yng Nghymru.

**Pete Frost, Cadeirydd**

**Grŵp Ecosystem Coetiroedd (WEG)**

Mae'r Grŵp Ecosystem Coetiroedd wedi cwrdd bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r grŵp wedi cwblhau cynllun gweithredu ar gyfer datblygu a chyflwyno cyngor i reolwyr coetiroedd a darparwyr camau gweithredu bioamrywiaeth

lleol ar gynefinoedd a rhywogaethau coetiroedd. Trafododd y grŵp y materion polisi a oedd, ym marn yr aelodau, yn atal cynnydd o ran cyflawni’r camau gweithredu, ac wedi trafod gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, teimlwyd y gellid goresgyn y rhan fwyaf o’r rhain trwy weithio gyda’r Comisiwn Coedwigaeth yn hytrach na’u cyflwyno i’r grŵp polisi.

Cytunodd y grŵp i adolygu targedau’r cynefinoedd coetir yn unol â’r dadansoddiad pellach a wnaed o ddata’r rhestr genedlaethol o goetiroedd a choed. Mae’r llinell sylfaen ar gyfer ardaloedd coetir yng Nghymru wedi’i adolygu. Bydd yr ardal ar gyfer targedau’r coetiroedd hynafol o fewn y cynefinoedd yn cael ei hadolygu hefyd pan fydd y Rhestr o Goetiroedd Hynafol wedi’i chwblhau. Mae deall cyflwr cyfredol coetiroedd cynhenid wedi bod yn bwnc llosg ynghyd â monitro safleoedd wedi’u dynodi, gan mai Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol ac arolwg o Ystâd Coetir Llywodraeth y Cynulliad yw’r unig ddulliau sydd ar gael ar hyn o bryd. Yn y cyfarfod diwethaf, esboniodd Richard Lucas sut mae gan dechnoleg LiDar, a thechnegau eraill amrywiol y bu’n gweithio gyda nhw, y potensial i fesur cyflwr coetiroedd. Gallai hwn fod yn faes buddiol tu hwnt ym marn y grŵp os gellir ei gyflawni. Bydd Richard yn rhoi cyflwyniad ar y pwnc yn y cyfarfod nesaf.

Mae’r gwaith o gyflawni camau gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth coetiroedd trwy Grantiau wedi newid yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar ôl cau Coetiroedd Gwell i Gymru a datblygu cynlluniau Creu Coetiroedd a Rheoli Coetiroedd Glastir. Mae’r grŵp wedi cael cyflwyniadau gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ar y ddau gynllun hyn ac maent yn cyfrannu at y broses o’u datblygu.

Cytunodd y grŵp mewn egwyddor i gyflawni ar gyfer rhywogaethau coetir trwy reoli cynefinoedd ac mae hyn wedi’i drafod gyda chadeirydd y Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau a nifer o sefydliadau. Mae aelodau o’r Grŵp Ecosystem Coetiroedd yn gweithio ar ddatblygu’r egwyddor ymhellach ac yn wir, mae’n dylanwadu ar y gwaith o gyflawni ar gyfer rhywogaethau o fewn cynllun rheoli coetiroedd Glastir.

Cafodd y grŵp gyfle i roi sylwadau ar safle polisi bioamrywiaeth Coetiroedd i Gymru, a manteisiodd sawl aelod ar y cyfle. Gellir gweld y papur, ynghyd â 7 safle polisi arall sy’n cefnogi’r strategaeth Coetiroedd ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

Rhoddodd Jim Latham gyflwyniad ar y prosiect mapio â blaenoriaeth ac mae’r grŵp wedi cefnogi gwaith Jim, gan ychwanegu gwerth a chytuno ar y materion sy’n flaenoriaeth i goetiroedd. Mae’n anodd dewis safleoedd unigol yn nhrefn blaenoriaeth, felly rydym wedi nodi enghreifftiau sy’n ymwneud â’r materion.

Un o’r problemau mawr mewn coetiroedd a choedwigaeth ar hyn o bryd yw *Phytophora ramorum* ac mae nifer fawr o goed llarwydd wrthi’n cael eu dymchwel ar hyn o bryd o dan orchmynion Iechyd Planhigion. Mae’r grŵp wedi derbyn y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ac wedi amlygu’r ffaith bod yna gyfleoedd yn y cynllun ailgyflenwi i droi’r ardaloedd yn goetiroedd cynhenid.

**Chris Tucker, Cadeirydd**

**Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau (SEG)**

Dyma ail adroddiad blynyddol Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau Cymru (WSEG) i Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (WBPSG) ac mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng Rhagfyr 2009 a Rhagfyr 2010.

Mae rhaglen WSEG yn cynnal tri chyfarfod y flwyddyn. Fodd bynnag, yn y cyfnod hwn, mae dau gyfarfod wedi'u cynnal gyda'r WSEG4, yn cael ei ohirio o fis Mehefin 2010 tan fis Medi 2010.

Mae 32 arbenigwr ar rywogaethau ar gofrestr y grŵp (28 yn mynychu, 4 arbenigwr ar rywogaethau a 3 arbenigwr academaidd) a bydd cyfarfodydd WSEG yn cael eu mynychu neu waith yn cael ei gyflawni, gan oddeutu hanner y rhain.

Yn ystod y cyfnod hwn mae'r WSEG wedi canolbwyntio ar y meysydd gwaith canlynol:

- Wedi rhoi cyngor ar feithrin gallu tacsonomaidd yng Nghymru trwy raglen Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (gweler Papur WBPSG10 hyd at Nodyn B).
- Glastir – darparwyd cyflwyniad a thrafodaeth gan un o reolwyr y cynllun yn Adran Materion Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Cysylltu ac integreiddio cynefinoedd rhywogaethau – mae cyfres o weithdai wedi'u trefnu a byddant yn cael eu cynnal yn 2011. Mae'r gyfres hon o weithdai'n cyflwyno'r cam cyntaf yn y broses o integreiddio gofynion perthnasol rhywogaethau sy'n flaenoriaeth i mewn i brosiect sy'n seiliedig ar gynefinoedd a darparu rheolaeth ar safleoedd.
- Arfarnu prosiectau a gyflwynwyd i'w hariannu gan grant bach Cynulliad Cymru ar gyfer cyflawni camau gweithredu bioamrywiaeth.
- Nodi'r 'camau gweithredu sy'n flaenoriaeth' ar gyfer rhywogaethau – ar waith
- Nodi'r 'materion polisi allweddol' y dylai Grŵp Polisi Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru fynd i'r afael â nhw (gweler cyfarfod 4 Grŵp Polisi Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru)

Prif Bartneriaid ar gyfer Rhywogaethau sy'n Flaenoriaeth

Er nad yw'n rhan o gylch gwaith yr WSEG mewn gwirionedd, mae'r grŵp wedi treulio cryn dipyn o amser (yn ôl yr angen a'r gofyn) ar benodi a chadarnhau'r prif bartneriaid ar gyfer rhywogaethau a42[1]. Mae hyn hefyd wedi gofyn i ni nodi bylchau (mewn adnoddau) sy'n cyfyngu'r gallu i gyflawni cadwraeth effeithiol ar draws yr holl garfan o rywogaethau sy'n flaenoriaeth (gweler Papur WBPSG10 i Nodyn A). Mae'r gwaith hwn ar y gweill.

**Stephen Bladwell, Cadeirydd**

[1] Mae Adran 42 o Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru gynnal rhestr o rywogaethau sy'n flaenoriaeth ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth yng Nghymru. Dyma'r rhestr o rywogaethau mae'r WSEG yn rhoi ei sylw iddi.

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 13**
**PAPUR 02**
**10 Chwefror 2011**

**Teitl: Gwarchod bioamrywiaeth mewn hinsawdd sy'n newid – cyfuno gwaith addasu a lliniaru sy'n seiliedig ar ecosystemau â Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol**

**Awdur: Clive Walmsley, CCGC**

## Cefndir/Cynnydd

Mae tystiolaeth bendant o newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod o 1914 i 2006 cododd y tymheredd cymedrig dyddiol 0.7ºC ac mae nifer y diwrnodau bob blwyddyn lle ceir rhew yn yr aer wedi gostwng 22.4 rhwng 1961 a 2006. Gwelwyd gostyngiad sylweddol o 24% mewn glawiad yn yr haf yng Nghymru (1914-2006), ac yn fwy diweddar (rhwng 1961a 2006) mae dyodiad trwm wedi cynyddu yn y gaeaf a lleihau yn yr haf (*Jenkins et al. 2009*). Yn ôl y rhagamcanion byddwn yn gweld mwy o newidiadau yn yr hinsawdd yn y dyfodol nag yr ydym wedi'u gweld hyd yn hyn. Yng Nghymru, yr amcangyfrif gorau ar gyfer y cynnydd yn uchafswm tymheredd dyddiol cymedrig yr haf erbyn y 2020au yw 1.9ºC: mae hyn ddwywaith yn fwy na'r cynnydd o 0.9ºC yn uchafswm dyddiol yr haf a welwyd rhwng 1914 a 2006. Mae lefel y môr wedi codi tua 1mm y flwyddyn yn ystod yr 20[fed] ganrif, ond amcangyfrifir y gallem weld cynnydd o 3-4mm y flwyddyn yn ystod yr 21[ain] ganrif (*Lowe et al. 2009*).

Mae newidiadau o'r fath yn yr hinsawdd eisoes yn achosi effeithiau ecolegol yn ecosystemau'r moroedd, y dyfroedd croyw a'r ddaear ar hyd a lled y Deyrnas Unedig (*IACCF 2010*), ac mae'n amlwg y byddant yn cael effaith fawr iawn yn y dyfodol. Mae prosiect MONARCH ac astudiaethau effaith eraill wedi dangos y bygythiad posibl i fioamrywiaeth yn y dyfodol. Mae tystiolaeth yng Nghymru eisoes i gefnogi rhai rhagamcanion yn ymwneud â gofod biohinsawdd, gydag ystlumod pedol mwyaf (*Rhinolophus ferrumequinum*) eisoes yn cael eu cofnodi yng Ngogledd Cymru, yn llawer pellach na'u cyrhaeddiad hanesyddol, a rhedyn-Woodsia hirgul (*Woodsia ilvensis*) yn dangos dim arwydd o gwbl o aildyfu, adennill nac ymledu ym mhoblogaethau'r Deyrnas Unedig, sy'n awgrymu y gallai'r rhywogaeth eisoes fod y tu allan i'w gofod biohinsawdd addas. Arfarniadau o'r fath o'r effeithiau sylweddol posibl oedd yr ysgogiad i ddatblygu canllawiau ar warchod bioamrywiaeth mewn hinsawdd sy'n newid, *Conserving biodiversity in a changing climate*, sydd wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd yng Nghymru, er mwyn ysgogi camau gweithredu yn y sector bioamrywiaeth. Yn fwy diweddar mae CCGC wedi nodi pum blaenoriaeth allweddol er mwyn prif ffrydio camau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd: i) camau ymarferol a pholisïau sy'n gwella gwytnwch; ii) monitro newid yn yr hinsawdd ac effeithiau'r newid; iii) rhagweld newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol a'i effeithiau fel sail i gamau gweithredu; iv) cynyddu

dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd, ei effeithiau ac ymatebion posibl er mwyn ysgogi camau gweithredu; a v) lleihau allyriadau yn y sefydliad ac annog eraill i wneud hynny (CCW 2010).

Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cynnydd sydd wedi ei wneud â'r 'camau ymarferol a pholisïau sy'n gwella gwytnwch' ac yn trafod yr angen i gysylltu gwarchod bioamrywiaeth â gweithgareddau ymaddasu a lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol.

### *Cynllun/Cynigion*

Mae CCGC wedi bod yn casglu astudiaethau achos sy'n ymwneud ag addasu bioamrywiaeth yng Nghymru yn ddiweddar. Mae'r prosiectau'n amrywio o fentrau cymunedol trefol i brosiectau gwledig ar raddfa tirwedd. Mae'r sector bioamrywiaeth wedi datblygu amrywiaeth eang o fentrau lleol sy'n rhoi sylw i ymaddasu, ond mae'r rhan fwyaf yn ymwneud ag ardaloedd lleol ac wedi cael eu sefydlu gan sefydliadau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, a hynny weithiau heb gefnogaeth rhanddeiliaid ehangach. Nodwedd arall o lawer o'r prosiectau yw eu bod yn edrych ar bosibiliadau neu'n cynllunio rheolaeth addasol yn bennaf (e.e. Econet, Rhanbarthau Amgylchedd Rhwydweithiol). Ychydig ohonynt sydd wedi cyflawni gwaith ar lawr gwlad, ond disgwylir y bydd hynny'n newid gyda threigl amser. Mae menter Mynyddoedd Cambria wedi bod yn canolbwyntio hyd yn hyn ar faterion cynaliadwyedd ehangach, ond mae wedi modelu potensial i addasu ar raddfa dalgylch yn ddiweddar ac erbyn hyn mae'n edrych pa mor dderbyniol yw gwahanol ddewisiadau i'r gymuned leol. Ychydig iawn o enghreifftiau o brif ffrydio ymaddasu drwy Gymru sydd i'w gweld, er bod rhai eithriadau, fel menter y Rhanbarthau Amgylchedd Rhwydweithiol a fydd yn cael ei chyflwyno'n raddol i rannau o Gymru. Mae'n amlwg bod y sector bioamrywiaeth yng Nghymru wedi derbyn bod angen addasu, ei fod yn datblygu ffyrdd o wneud hynny, a'i fod ar y blaen i lawer o sectorau eraill o ran ymwybyddiaeth ac o ran camau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Mae angen gwneud mwy yn y sector, o ran ymaddasu a rheolaeth addasol, er mwyn gwarchod bioamrywiaeth, ond yr her fwyaf yw sicrhau, wrth ystyried camau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, bod sectorau eraill yn ystyried sut y gallai gwarchod bioamrywiaeth helpu i gyflawni amcanion newid hinsawdd y sector – ac fel arall. Gall gwarchod a rheoli bioamrywiaeth, a'r gwasanaethau ecosystem y mae'n eu darparu, wneud cyfraniad pwysig i'r gwaith o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Yn yr un modd, mae'n rhaid i ni roi sylw i'r newid yn yr hinsawdd er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â cholli bioamrywiaeth. Mae'r synergedd hwn yn digwydd gan fod y ffactorau sy'n ysgogi newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth yn gorgyffwrdd i raddau helaeth; er enghraifft, llygred aer, defnydd aneffeithlon o adnoddau ac arferion amaethyddol anghynaladwy.

Mae enghreifftiau o waith addasu a lliniaru sy'n seiliedig ar ecosystemau mewn gwahanol rannau o Ewrop sy'n dangos ffyrdd o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chefnogi gwaith addasu cymdeithasol, a hefyd yn dangos manteision eraill, gan gynnwys gwella bioamrywiaeth, bywoliaeth, iechyd a

chyfleoedd ar gyfer hamdden (Cowan et al. 2010). Mae diffyg integreiddio polisïau ym meysydd bioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd wedi ei nodi fel elfen sy'n atal y mesurau addasu neu liniaru hyn sy'n seiliedig ar ecosystemau rhag cael eu gweithredu yn Ewrop. Fodd bynnag, nodwyd elfennau eraill sy'n atal mesurau rhag cael eu gweithredu, gan gynnwys ansicrwydd, prinder gwybodaeth ynglŷn â'r arferion gorau a thueddiad i ffafrio penderfyniadau ac atebion economaidd tymor byr yn hytrach na chynaliadwyedd hirdymor. Er bod ymdrechion wedi eu gwneud i gysylltu agendâu gwarchod bioamrywiaeth a newid hinsawdd yng Nghymru, mae angen mwy o integreiddio drwy weithio gyda'n gilydd i gyflawni mesurau addasu sy'n seiliedig ar ecosystemau, a mesurau lliniaru sy'n seiliedig ar ecosystemau i raddau llai, drwy warchod carbon, yn enwedig ym mynyddoedd Cymru.

Yn y dyfodol, bydd gwaith sy'n ymwneud ag ymaddasu a lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd yng Nghymru'n cael ei hybu gan Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd. Llywiwyd y gwaith o lunio'r Strategaeth hon yn rhannol gan gyngor a roddwyd gan Gomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr sy'n ymwneud â'r sector bioamrywiaeth o Gyswllt Amgylchedd Cymru a CCGC. Mae'r Strategaeth yn nodi y dylid datblygu Cynlluniau Ymaddasu'r Sectorau, gan gynnwys rhai ar gyfer yr 'amgylchedd naturiol'. Dylai'r cynlluniau hyn ddarparu rhagor o ganllawiau ac ysgogiad i integreiddio ystyriaeth o fioamrywiaeth yn y Cynllun Gweithredu ymaddasu. Cynigiwyd y dylai'r cynllun ymaddasu ar gyfer yr Amgylchedd Naturiol fod wedi ei gysylltu'n agos, neu ei integreiddio, â Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol. Dylai'r cynllun ymaddasu nodi synergeddau a gwrthdaro rhwng gwarchod bioamrywiaeth a sectorau eraill, yn enwedig y rhai hynny sy'n dylanwadu ar reolaeth tir, megis adnoddau dŵr, rheoli llifogydd, amaethyddiaeth, coedwigaeth, cynllunio gofodol a thwristiaeth.

### *Pwyntiau i benderfynu arnynt*

Nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau ymaddasu yng Nghymru a chais CCGC am ddiweddariadau neu enghreifftiau newydd ar gyfer diweddariad yn y dyfodol.

Ystyried cynnwys y dull ymaddasu sy'n seiliedig ar ecosystemau yn Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a'r angen cysylltiedig i nodi synergeddau a gwrthdaro rhwng gwarchod bioamrywiaeth a sectorau eraill.

Cytuno bod angen integreiddio Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a chynllun ymaddasu'r Amgylchedd Naturiol neu sicrhau cysylltiad agos rhyngddynt.

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 13**
**Papur 03**
**10 Chwefror 2011**

## Cydweithio rhwng Cymru Fyw a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

### *Cefndir*

Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ers papur 1 y cyfarfod o Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2010.

Mae'r datblygiadau sy'n ymwneud ag ymgynghoriad Cymru Fyw ers y dyddiad hwnnw'n cynnwys y canlynol:

- **Ymgynghoriad Cymru Fyw**

  Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 31 Rhagfyr 2010. Mae Tîm Canolog y We yn Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cadarnhau mai ymgynghoriad Cymru Fyw yw'r ymgynghoriad mwyaf poblogaidd ond un sydd wedi cael ei gynnal gan y Cynulliad, a chafodd y ddogfen ymgynghori ei llwytho i lawr dros 1,200 o weithiau.

  Anogwyd yr ymateb hwn gan nifer o weithdai, cyflwyniadau a sylw yn y cyfryngau ac mae dros 180 o ymatebion wedi dod i law.

  Yn anffodus, ychydig iawn o ymatebion a gafwyd gan y sector diwydiant, ac mae'n bosibl bod hynny'n adlewyrchu ffocws ein hymdrech i ymgynghori.

- Mae'r Grwpiau Ffrydiau Gwaith sydd wedi cael eu sefydlu wedi bod yn brysur (ac maent yn dal yn brysur)

  - ***Adeiladu'r Sylfaen Dystiolaeth*** sy'n cydgysylltu ffrydiau gwaith :
    - Iechyd Ecosystemau
    - Rhoi Gwerth ar Ecosystemau
    - Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol
  - ***Dulliau Rheoli a Rheoleiddio***
  - ***Adnewyddu Mecanweithiau Partneriaeth***

  Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd sydd wedi'i wneud gan bob grŵp ffrwd waith yn Atodiad A.

- Bydd Cymru Fyw a'r Prosiect Cyrff sy'n Darparu yn cynnal byrddau rhaglen chwarterol ar y cyd (h.y. bydd y ddau fwrdd rhaglen yn dod at ei gilydd bob trydydd cyfarfod) er mwyn sicrhau bod cyd-ddibyniaeth yn cael ei reoli'n llwyddiannus. Cynhelir y cyfarfod cyntaf o'r fath ddydd Llun, 28 Chwefror.

- **Llywodraeth Cynulliad Cymru** Rydym yn annog adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymwneud â'r gwaith o geisio sicrhau iechyd ecosystemau, eu gallu i wrthsefyll elfennau niweidiol a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ganddynt. Un ffordd o gyflawni mwy, heb lawer o gostau ychwanegol, os o gwbl, yw drwy addasu dulliau rheoli sy'n ymwneud â phlannu coed ac ati i ddibenion amwynder ar ystâd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn golygu bod modd rhoi cefnogaeth uniongyrchol i rywogaethau sy'n prinhau sy'n darparu gwasanaethau peillio; Gwasanaeth Ecosystem sy'n werth £440m y flwyddyn i ffermio yn y Deyrnas Unedig. Ar hyn o bryd mae Clive Faulkner, sydd ar secondiad o un o'r Ymddiriedolaethau Natur, yn gweithio gydag Iechyd, Trafnidiaeth, CADW a Rheoli Cyfleusterau er mwyn cyflawni hyn. Ochr yn ochr â'r swyddogaeth alluogi hon rydym

hefyd ar fin dechrau'r adolygiad rheolaidd nesaf o gyflawni'r ddyletswydd fioamrywiaeth yn adrannau Llywodraeth y Cynulliad. Bydd yr adolygiad yn dangos sut y mae'r ddyletswydd yn cael ei chyflawni yn yr adrannau ac yn nodi rhagor o gyfleoedd i gyflawni Agenda Cymru Fyw.

- **Rhanbarthau Amgylcheddol Rhwydweithiol** Mae'r cynllun hwn yn dechrau cael ei gysylltu â Chymru Fyw ac rydym yn ymwybodol o nifer o wahanol weithgareddau sector cyhoeddus sydd eisoes yn dechrau defnyddio dull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar ecosystemau. Mae Bwrdd Rhaglen Cymru Fyw yn awyddus i gael papurau am brosiectau, polisïau neu raglenni o'r fath, er mwyn inni allu sicrhau ein bod yn dysgu oddi wrth ein gilydd a, lle bo hynny'n briodol, yn cysylltu â'n gilydd.
- **Grwpiau Ecosystemau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru** Maent wedi bod yn ailddrafftio eu cylch gorchwyl a'u protocolau er mwyn bod yn rhan allweddol o Gymru Fyw. Mae cylch gorchwyl y grwpiau newydd yn y broses o gael eu cytuno gyda Bwrdd Rhaglen Cymru Fyw. (Gweler Atodiad B).

## *Cynllun/Cynigion*

Byddai ffrwd gwaith Partneriaeth Cymru Fyw yn hoffi gweithio mewn cysylltiad agos â Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru er mwyn cael gwell canlyniadau i ecosystemau a bioamrywiaeth yng Nghymru.

Gallem wneud hyn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys y canlynol:

- Gweithio gyda'n gilydd er mwyn cynnal gweithdai gyda sectorau sydd newydd ddechrau dod yn ymwybodol o gysyniadau Cymru Fyw. Rydym yn awyddus iawn i ymwneud mwy â'r sectorau diwydiannol a'r sector busnes yng Nghymru.

- Helpu sectorau i ddatblygu estyniadau ystyrlon i'r Prif Negeseuon i'w sectorau (nodir y Prif Negeseuon presennol yn Atodiad C)
- Rydym yn dal i geisio cael ystod ehangach o astudiaeth achos sy'n dangos yr arferion gorau. Yn fwyaf arbennig, byddem yn falch o glywed gan y rhai hynny o sectorau nad oes gennym enghreifftiau ohonynt ar hyn o bryd. (Gweler: www.cymru.gov.uk/cymryfyw)

  Cysylltwch â Fiona Evans (f.evans@ccw.gov.uk) os oes gennych brosiectau neu bolisïau a allai fod o ddiddordeb.
- Mae prosiect Rhanbarth Amgylchedd Rhwydweithiol De-ddwyrain Cymru wedi cael ei fabwysiadu gan y rhaglen Cymru Fyw fel astudiaeth beilot. Mae'r prosiect hwn yn ceisio dangos ar raddfa Cynllun Gofodol beth mae'r dull ecosystemau'n ei olygu, a pha bartneriaid ddylai ymwneud â'r gwaith. Mae nifer o weithgareddau a phrosiectau ar gyfer sectorau eraill sydd eisoes yn dechrau canolbwyntio mwy ar ecosystemau. Anogir aelodau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i ddal i gefnogi Prosiect Rhanbarth Amgylchedd Rhwydweithiol De-ddwyrain Cymru yn fwyaf arbennig, ac i gyflwyno enghreifftiau a thystiolaeth o brosiectau ecosystemau eraill y maent yn ymwneud â hwy.

## *Y Camau Nesaf*

Mae'r tudalennau gwybodaeth isod i'w gweld yn lle'r ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein: www.wales.gov.uk/livingwales / www.cymru.gov.uk/cymrufyw

Anogir sefydliadau ac unigolion i:

- Edrych ar y tudalennau newydd ar y we
- Nodi astudiaethau achos perthnasol

- Mynegi eu barn ynglŷn â’r fframwaith rheoleiddio presennol
- Gofyn i ni fynychu gweithdai i drafod ‘Cymru Fyw’ neu feysydd ffrydiau gwaith allweddol penodol.

Bydd diweddariad, gan gynnwys crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad, ar gael yn Chwefror 2011.

Adroddiad ar Amgylcheddau ar gyfer Cymru yn y Dyfodol, yn nodi pa fath o newidiadau y gallai hyn ei olygu i Gymru – Haf 2011

Adroddiad ar effeithiolrwydd dulliau rheoleiddio sy’n cael eu defnyddio ar hyn o bryd a chynigion cychwynnol ar gyfer newid – Haf 2011

Cynigion ar gyfer dulliau newydd o ddefnyddio gwybodaeth ddaearyddol a monitro, gan gynnwys cael y cyhoedd i gymryd rhan - Hydref 2011

Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer corff amgylcheddol newydd – Hydref 2011

## ***Pwyntiau i benderfynu arnynt***

Cadarnhau agweddau priodol ar y cynigion uchod.

Nodi ffyrdd o ymgysylltu mwy â sectorau diwydiant / busnesau nad ydynt yn ymwneud â’r amgylchedd.

Nodi a chytuno ar ffyrdd addas o weithio’n well gyda’n gilydd.

M Parry (CCGC) / A Schofield (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru) Ionawr 2011

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 13**
**Papur 03: ATODIAD 01**
**10 Chwefror 2011**

**Cymru Fyw – Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am y Rhaglen**
**31 Rhagfyr 2010**

**Yr Ymgynghoriad**

Lansiwyd ymgynghoriad Cymru Fyw ar 15 Medi 2010 a bu'n derbyn ymatebion tan 31 Rhagfyr 2010. Cymru Fyw oedd yr ymgynghoriad mwyaf poblogaidd ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Medi, Hydref a Thachwedd. (Rydym yn dal i ddisgwyl cadarnhad ai hwn oedd yr ymgynghoriad mwyaf poblogaidd ym mis Rhagfyr.) Mae Tîm Canolog y We wedi cadarnhau mai hwn yw'r ymgynghoriad mwyaf poblogaidd ond un i'w gynnal gan y Cynulliad erioed, wedi denu tua 6,600 o 'edrychiadau' a bron i 3,000 o 'ymweliadau'. Cafodd y ddogfen ymgynghori ei llwytho i lawr dros 1,200 o weithiau yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Hyd yn hyn rydym wedi cael 162 [+] o ymatebion i'r ymgynghoriad, yn amrywio o negeseuon e-bost byr i ddogfennau â nifer o atodiadau. Bydd yn cymryd tipyn o amser inni ystyried yr ymatebion hyn. Mae dwy broses wedi'u sefydlu er mwyn gwneud y gwaith hwn. Mae rheolwyr prosiect ac arweinwyr ffrydiau gwaith yn dal i ystyried ymatebion sydd wedi dod i law er mwyn nodi cysylltiadau, bylchau a chefnogaeth sy'n cael ei chynnig. Yn ychwanegol at hyn, mae'r casgliad llawn o ymatebion yn cael ei ddadansoddi er mwyn datblygu crynodeb o ymatebion a datganiad ynglŷn â'r camau nesaf.

Mae'r camau nesaf sy'n cael eu hamlinellu isod yn seiliedig ar y syniadau sydd gennym ar hyn o bryd ond mae'n debyg y byddant yn cael eu newid yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Darperir adroddiad diweddaru arall ym mis Chwefror.

Ffrydiau Gwaith y Rhaglen

Mae Rhaglen Cymru Fyw yn cynnwys y ffrydiau gwaith isod:

Adeiladu'r Sylfaen Dystiolaeth (sy'n cydgysylltu ffrydiau gwaith A,B ac C)
Iechyd Ecosystemau
Rhoi Gwerth ar Ecosystemau
System Gwybodaeth Ddaearyddol
Dulliau Rheoli a Rheoleiddio
Adnewyddu Mecanweithiau Partneriaeth

Rheolir pob ffrwd waith gan gadeirydd a rheolwr prosiect ac maent wedi cynnal o leiaf ddau gyfarfod (mae rhai wedi cynnal llawer mwy na hyn). Roedd pob ffrwd waith wedi cynhyrchu cynllun prosiect drafft, sy'n cael ei ddiwygio ar hyn o bryd yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Gall cyrff allanol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ymwneud â phob un o'r ffrydiau gwaith, naill ai fel rhan o aelodaeth graidd pob ffrwd waith neu fel rhan o grŵp cyfeirio ehangach. Mae hwn yn gyfle i bawb ein helpu i ddatblygu'r dull newydd hwn a chynnig mewnbwn i'r gwaith o'i gynllunio.

Mae cysylltiadau cryf ag Adolygiad y Cyrff sy'n Darparu: adnewyddu trefniant sefydliadol Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.

Ceir diweddariad byr isod o'r cynnydd a'r camau nesaf ar gyfer pob ffrwd waith:

Iechyd Ecosystemau

Mae'r ffrwd waith hon yn ystyried materion sy'n ymwneud â rhywogaethau allweddol a gwytnwch, a beth sy'n gwneud ecosystem iach. Mae'r aelodau wedi drafftio cyfres estynedig o ddiffiniadau, adroddiad manwl ar y rhesymau dros fethu â chyrraedd y targedau, a rhestr o ddogfennau allweddol sy'n ymwneud â nwyddau a gwasanaethau ecosystemau.

Mae'r ffrwd waith yn gwneud defnydd helaeth o waith sydd wedi'i wneud yn barod ar bob math o gynefin (y ddaear, dŵr croyw a'r môr) er mwyn ateb y cwestiwn pa ecosystemau rydym eu heisiau a'u hangen ac ym mhle yng Nghymru y dylent fod er mwyn darparu'r gwasanaethau y mae arnom eu hangen. Bydd yr wybodaeth hon yn bwysig iawn er mwyn i ffrydiau gwaith eraill allu arfarnu effeithiolrwydd y dulliau rheoli a rheoleiddio presennol yn llawn, cynllunio systemau gwybodaeth ddaearyddol priodol ac arfarnu offerynnau economaidd posibl.

Byddant yn cynhyrchu deilliannau sy'n seiliedig ar fapiau ac yn cysylltu â ffrwd waith y system gwybodaeth ddaearyddol yn y Flwyddyn Newydd i sicrhau bod y rhain yn gydnaws â systemau darparu sy'n cael eu defnyddio'n barod. Rhagwelwn y bydd y grŵp yn cael ei ehangu i gynnwys mwy o fewnbwn academaidd yn nes ymlaen yn y broses, a rhannu diffiniadau wedi eu hailddrafftio a rhestr o fathau o ecosystemau gyda'r ffrydiau gwaith eraill yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

Mae'r ffrwd waith yn gweithio ar enghreifftiau go iawn er mwyn dangos egwyddorion iechyd a gwytnwch ecosystemau, ac mae wedi cynhyrchu model a ddefnyddiwyd ar gyfer coetiroedd, a fydd yn cael ei brofi â mathau eraill o gynefinoedd. Mae'r model yn edrych ar y ffactorau a'r prosesau sy'n dylanwadu ar gyflwr safleoedd a gweithrediad y dirwedd. Maent yn gweithio mewn cysylltiad agos â'r Is-adran Cynaliadwyedd a Thystiolaeth Amgylcheddol er mwyn

dadansoddi'r gwaith monitro presennol a gweld i ba raddau y bydd y gwaith hwn yn gallu diwallu ein hanghenion yn y dyfodol. Maent hefyd wedi cynhyrchu adolygiad o'r cysyniad o rywogaethau allweddol fel dangosyddion iechyd ecosystemau ac wedi dod i'r casgliad nad ydynt yn addas ar gyfer ein dibenion. Yn ogystal â mapiau a chrynodeb technegol, byddant yn darparu astudiaethau achos da ar gyfer y rhan fwyaf o'r deilliannau. Bydd y ffrwd waith hon yn cynhyrchu mecanwaith monitro cyffredin i'n galluogi i sicrhau'r budd mwyaf posibl o'r holl wybodaeth rydym yn ei chasglu. Bydd yr elfennau cyntaf yn barod ym Mai 2011.

Rhoi Gwerth ar Ecosystemau

Bydd y ffrwd waith hon yn ystyried tystiolaeth economaidd berthnasol, offerynnau economaidd y gellir eu defnyddio i sicrhau deilliannau ecosystemau, yn ogystal â data economaidd cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach. Gobeithir y bydd y grŵp hwn yn rhoi rhyw syniad ynglŷn â gwerth elfennau allweddol o gyfalaf amgylcheddol yng Nghymru ac asesiad o'r offerynnau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i roi gwerth ar gyfalaf economaidd yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

Mae adolygiad cychwynnol o'r sylfaen dystiolaeth wedi dod i'r casgliad bod y dystiolaeth sylfaenol am werth gwasanaethau ecosystemau yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol yn sylweddol (ac yn cynyddu), ond mai ychydig o wybodaeth benodol am Gymru sydd ar gael. Fel cam cyntaf er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, mae tair astudiaeth achos yn cael eu datblygu, gan edrych ar y newid yng ngwerth gwasanaethau ecosystemau yng Nghymru sy'n seiliedig ar:

Ehangu'r rhwydwaith Ardaloedd Gwarchodedig Morol;
Cynyddu mynediad i Fannau Gwyrdd Trefol; a
Rhaglen ehangu coetir.

Mae'r grŵp hefyd yn bwriadu nodi'r prif fylchau yn y sylfaen dystiolaeth yng Nghymru ac ystyried beth yw'r ffyrdd gorau o roi sylw ir bylchau hynny.

Un o'r cwestiynau allweddol a gyfeiriwyd at y ffrwd waith hon yn y ddogfen ymgynghori oedd a fyddai gwerth mewn datblygu cyfrifon ffurfiol i gyfalaf naturiol yng Nghymru. Mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud ar lefel ryngwladol i ddatblygu methodoleg gadarn a chyson er mwyn cynnwys gwerth adnoddau amgylcheddol a gwasanaethau ecosystem mewn systemau cyfrifo cenedlaethol. Er enghraifft, yn y Confensiwn ar Fioamrywiaeth a gynhaliwyd yn Nagoya yn ddiweddar, lansiodd Banc y byd bartneriaeth fyd-eang a phrosiect peilot 5 mlynedd gyda'r bwriad o ddatblygu'r systemau sydd eu hangen i ddod â gwerth llawn manteision gwasanaethau ecosystem i fframweithiau cyfrifo cenedlaethol. Er nad oes llawer o werth i Gymru ddatblygu ei methodolegau cyfrifo ei hun, ar wahân i'r hyn sy'n cael ei wneud mewn rhannau eraill o'r byd, mae'n bosibl y gellid dechrau casglu'r setiau data ffisegol y bydd eu hangen er mwyn cynhyrchu

cyfrifon cyfalaf naturiol.  Mae hyn yn rhywbeth a fydd yn cael ei archwilio ymhellach yn y misoedd sydd i ddod.

Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS)

Un o brif ganlyniadau arfaethedig is-ffrwd dystiolaeth Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) yw canfod a chasglu sail dystiolaeth ofodol o ddata daearyddol perthnasol a chadarn i gefnogi anghenion y fframwaith. Mae'r broses hon, sy'n dal i fynd rhagddi, wedi dod â sgiliau gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â data a systemau gwybodaeth ddaearyddol o wahanol rannau o'r sector cyhoeddus yng Nghymru at ei gilydd mewn ymdrech ar y cyd i wella hysbysrwydd a mynediad at doreth o wybodaeth ddaearyddol a gedwir gan y sefydliadau hyn. Mae'r broses hon wedi arwain at gynnydd yn ehangder a dyfnder y dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi'r fframwaith.

Ochr yn ochr â hyn gwelwyd gwelliannau yn y ffordd y mae data'n cael eu cyfnewid ar draws sefydliadau er mwyn galluogi llif data i fod yn fwy effeithlon ac adweithiol a chreu porthol mapiau ar-lein fel prototeip i gefnogi proses ymgynghori 'Cymru Fyw'.

Bydd rhagor o brofion yn cael eu gwneud ar borthol mapio GIS Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol, gyda'r bwriad o gyhoeddi mapiau rhyngweithiol o setiau data allweddol a all fod o fudd i wahanol gymunedau o ddefnyddwyr. Bydd gwelliannau'n cael eu gwneud er mwyn cynhyrchu system fwy cynhwysfawr yn barod ar gyfer Mai 2011.

Adnewyddu Dulliau Rheoli a Rheoleiddio

Mae'r ffrwd waith dulliau Rheoli a Rheoleiddio'n canolbwyntio ar adolygiad trylwyr o'r fframwaith rheoleiddio presennol sy'n berthnasol i egwyddorion Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol. Rydym wedi ffurfio grŵp craidd o arbenigwyr (rheoleiddwyr yn bennaf) i lunio fformat asesu er mwyn cymell pobl i fynegi safbwyntiau allweddol a darparu sail dystiolaeth gychwynnol a fydd yn gweithredu fel sylfaen i'n gwaith yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae'r asesiad yn gyfuniad o holiadur wedi'i dargedu ar gyfer grŵp ehangach o reoleiddwyr a'r rhai sy'n cael eu rheoleiddio, adolygiad llenyddol o adolygiadau blaenorol o ddeddfwriaeth a chyfweliadau 1:1 gyda grŵp ehangach o reoleiddwyr a rhai sy'n cael eu rheoli. Bydd y sylfaen dystiolaeth hon yn seiliedig ar effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth i gyflawni ei phwrpas arfaethedig a'i heffaith ehangach ar ddarparu ecosystemau iach a'u gwasanaethau.

Mae'r ffrwd waith eisoes wedi nodi dibyniaeth allweddol gydag egwyddorion Cymru Fyw a'r gwaith tystiolaeth ehangach. Mae angen i ni fod yn glir ynglŷn â'r hyn sydd arnom ei eisiau gan ein tiroedd a'n moroedd a'r defnydd a wneir ohonynt gan gymdeithas er mwyn arfarnu effeithiolrwydd y dulliau rheoli a rheoleiddio presennol o gyflawni'r deilliannau hyn. Mae'n bosibl y bydd angen

deddfwriaeth sylfaenol, allweddol yn y dyfodol, ond ni ddylai hyn ein hatal rhag nodi a sefydlu prosesau syml a dulliau rheoli allweddol i wneud y gwaith o weithredu'n casgliad presennol o ddeddfwriaethau'n fwy effeithiol.

Mae'n ymddangos ar hyn o bryd, ar sail trafodaeth rhwng cynrychiolwyr ffrydiau gwaith, yn hytrach na chanlyniadau'r asesiad sydd newydd ddechrau, bod cryn dipyn o le i wella, o ran sut y mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn cael ei chymhwyso a'i gweithredu. Mae a wnelo hyn â phrosesau, a hefyd â sut y gall 'mewnosod' y gwaith o weithredu deddfwriaeth mewn dulliau rheoli ehangach fod yn ddull effeithiol o gyflawni. Mae hwn yn faes y mae'r ffrwd waith yn awyddus i ymchwilio ymhellach iddo, ond mae angen inni wneud hyn gan ddefnyddio dull dilyniannol, ar ôl adeiladu sylfaen gref a fydd o fudd inni yn y tymor canolig.

Adnewyddu Mecanweithiau Partneriaeth

Mae'r ffrwd waith hon yn arwain gweithgareddau ymgynghori ac yn rheoli'r cynllun cyfathrebu ar gyfer Cymru Fyw. Mae pecyn o offer (prif negeseuon, deunydd ar gyfer cyflwyniadau ac amlinelliad o weithdai) wedi cael ei ddatblygu i'w ddefnyddio gan bartneriaid. Fel rhan o'r broses hon, mae aelodau'r ffrwd waith a phartneriaid eraill yn awyddus i gael mewnbwn gan ystod lawer ehangach o randdeiliaid nag sy'n ymwneud ar hyn o bryd â gwella a diogelu ecosystemau.

Mae aelodaeth y ffrwd waith yn cynnwys cyrff amgylcheddol a chyrff nad ydynt yn ymwneud â'r amgylchedd. Mae hefyd yn cynnwys arbenigwyr o feysydd twristiaeth, y diwydiant gweithgynhyrchu, amaethyddiaeth a chyfathrebu. Maent wedi bod yn rhoi blaenoriaeth hyd yn hyn i gynyddu ymwybyddiaeth ac annog ymatebion. Er ei bod yn anodd priodoli'r gwaith hwn i ffactorau penodol, mae'n ymddangos bod presenoldeb a chyflwyniadau mewn nifer o gynadleddau a chyfarfodydd wedi sicrhau ymateb sylweddol o ran ymweliadau â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru, lawrlwytho'r ddogfen ymgynghori a chyflwyno ymatebion ffurfiol.

Mae aelodau'r grŵp yn credu eu bod wedi cyflawni eu blaenoriaeth gychwynnol o ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid â sectorau allweddol. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, pan mae llawer o sefydliadau'n dioddef caledi ariannol, mae'n rhaid i ni weithio ar gyflymder sy'n ffafriol iddynt hwy a'u hadnoddau. Mae teimlad bod angen i ni ganolbwyntio ar gael cefnogaeth ehangach a dyfnach hyd yn oed i rai o egwyddorion sylfaenol Cymru Fyw. Mae angen mwy o amser i gael ymatebion gan sefydliadau ac asesu a ydym wedi methu unrhyw sectorau, ac mae angen inni drafod mwy ar gysyniadau Cymru Fyw gyda'r cyhoedd yn ehangach. Rydym yn awyddus i sicrhau dilyniant yn y dull gweithredu ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai ac rydym wedi argymell bod Uwchgynhadledd yn cael ei chynnal cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl yr etholiadau er mwyn sicrhau bod y Gweinidog/Llywodraeth newydd yr un mor ymroddedig i newid â'r un presennol.

Mae'r ffaith fod y ffrwd waith hon wedi canolbwyntio ar gymell ymatebion i'r ymgynghoriad drwy fynychu cyfarfodydd sefydliadau "partner" a gwneud cyflwyniadau'n golygu eu bod yn fwriadol heb ddechrau ar y gwaith o edrych sut y bydd gweithio mewn partneriaeth yn wahanol dan y fframwaith newydd. Credwn mai hyn fydd eu gwaith mwyaf yng ngham 2.

Y Camau Nesaf

Mae'r tudalennau gwybodaeth isod i'w gweld yn lle'r ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein: www.wales.gov.uk/livingwales / www.cymru.gov.uk/cymrufyw

Rydym yn dal i annog ymgysylltu drwy ofyn i sefydliadau ac unigolion:
Ein gwahodd i fynychu cyfarfodydd neu ddarparu gweithdai i weld beth mae hyn i gyd yn ei olygu i'w grŵp neu eu sefydliad hwy;
cyswllt: Andy Schofield (andy.schofield@environment-agency.wales.gov.uk)
Ymweld â'n tudalennau gwe a darllen yr astudiaethau achos neu awgrymu eu hastudiaethau achos eu hunain;
cyswllt: Fiona Evans (f.evans@ccw.gov.uk)
Anfon eu barn ynglŷn ag effeithiolrwydd y fframwaith rheoleiddio presennol;
cyswllt: Jennifer Dack (jennifer.dack@environment-agency.wales.gov.uk) i'w ychwanegu at y rhestr bostio i gael holiadur
Gofyn i ni ddod draw i ddarparu gweithdy yn ymwneud â phorthol prototeip Gwasanaethau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a sut y gellid defnyddio hyn;
cyswllt: Colin Chapman (colin.chapman@wales.gsi.gov.uk)
Ymuno ag un o'n grwpiau gwaith sy'n edrych sut y gallwn wneud i hyn ddigwydd;
cyswllt: natureconservation@wales.gsi.gov.uk
Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn 2011 fel a ganlyn:

Bydd crynodeb o'r ymatebion a datganiad ynglŷn â'r camau nesaf, ynghyd â detholiad o adroddiadau diweddaru, megis papur diffiniadau wedi'i ddiweddaru a'i ehangu, ac adroddiadau cynnydd ar ddangosyddion a monitro a'r potensial ar gyfer cyfrifo cyfalaf naturiol. Bydd astudiaethau achos ychwanegol a rhagor o ddatblygiadau i'r Porth GIS ar gael hefyd.
– Chwefror 2011

Adroddiad ar Amgylcheddau ar gyfer Cymru yn y Dyfodol, yn nodi pa fath o newidiadau y gallai hyn ei olygu i Gymru – Haf 2011

Adroddiad ar effeithiolrwydd dulliau rheoleiddio sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd a chynigion cychwynnol ar gyfer newid – Haf 2011

Cynigion ar gyfer dulliau newydd o ddefnyddio gwybodaeth ddaearyddol a monitro, gan gynnwys cael y cyhoedd i gymryd rhan - Hydref 2011

Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer corff amgylcheddol newydd – Hydref 2011

**WBPSG13**
**Paper 03: ANNEX 02**
**10th February 2011**

## DRAFT: WALES-LEVEL SPECIALIST GROUPS Terms of Reference: DRAFT

The aim of the Wales Biodiversity Partnership (WBP) is to bring together key players from the public, private and voluntary sectors to promote and monitor biodiversity action in Wales, including protected sites and section 42 listed habitats and species. Delivery of biodiversity action in Wales is undertaken by a network of Wales-level specialist groups. These include 9 Ecosystem Groups, the Species Expert Group, the Invasive Non-native Species Group, the Wales Environment Information Steering Group and the Outcome 21 group.

Every group has the following responsibilities with regard to their particular focus:

- Collaborate with others in Wales to support the development and implementation of an ecosystem approach[1], focused on ecosystem health and resilience as set out in the WBP Framework and Living Wales.

- Work with relevant stakeholders on practical projects to provide ecosystem and biodiversity benefits.

- Act as a source of expertise for appropriate WAG Officials, within the context of Living Wales, to secure ecosystem outcomes and reduce barriers to ecosystem enhancement and protection within all areas of WAG policy and delivery.

- Contribute to monitoring, surveillance and reporting to promote positive use of scientific evidence within policy development, delivery and action. Identify knowledge gaps and recommend how these can be filled and contribute to the strategic approach being developed by the Living Wales evidence work stream.

- Share data and report actions, and encourage others to do so, in a timely fashion on the Biodiversity Action Recording System (BARS), Special Sites Database (Environment Strategy Wales Outcome 21), local record centres and/or NBN Gateway or other relevant national database.

- Work with each other, and with relevant pubic authority funding managers, to coordinate funding bids.

- Contribute to coordination of reporting on status and trends for habitats and associated species.

- Keep under review the skill set and membership of the group to ensure that it fully reflects the ecosystem approach.

[1] As defined by …. NEF Evidence workstream, insert reference to ecosystems definitions paper.

DRAFT

**WBP Group Meeting Protocol** (based on Living Wales meeting protocol)

**Basic Principles**

- Be honest, open and accessible at all times
- Give and receive positive feedback
- Seek to understand the reality of the barriers being faced by stakeholders
- Endeavour to overcome these in the most effective, sustainable way possible
- Be prepared to roll up your sleeves and help

Decide on the meeting objectives – make sure it is action centred.

Arrange a number of meeting dates ahead at each meeting, so that people are more easily able to attend.

Choose the most appropriate venue and communication channels; video conferencing, audio and/or face to face.

Send meeting details to the group; including date, start and finish times, venue location, refreshment availability, communication channels and agenda. Provide all meeting papers to WBP for publication on WBP website. State clearly that an appropriately briefed deputy should be sent to attend if an invitee cannot attend.

Establish who can attend, including the deputies, and ensure that all potential attendees have received the meeting details.

The meeting should have a Chair who keeps the meeting on track and to time, Members who are responsible for ensuring action takes place between meetings, and a Secretary who records the action points and decisions made at the meeting.

The previous meeting's uncompleted action points should be reviewed at each meeting.

At each meeting three key messages should be agreed that can be shared by Members with their colleagues and wider networks. Members will ensure that the three key messages from each meeting are fed back to their colleagues and wider networks.

The Chair will end the meeting by summarising the action points for the Secretary and the group. The action points should be assigned to individuals with milestones/deadlines. The Chair may set up sub-groups or task and finish groups to determine issues requiring more detailed input outside the core work stream meeting.

As soon as possible, or within a week following a meeting, the action points should be circulated to all, including those relevant outside the meeting, who may need to take action or be informed.

Members will chase actions and ensure that they are carried out to a good standard and to reasonable deadlines. If there are problems they will take appropriate timely action and/or seek advice or assistance from the Chair.

Chairs will ensure that they are in regular contact with other ecosystem group chairs in order to assist each other with interdependencies.

DRAFT

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 13**
**Papur 03: ATODIAD 03**
**10 Chwefror 2011**

**Cymru Fyw – Y Prif Negeseuon**

Mae'n system cynnal bywyd dan bwysau

Mae tiroedd, dyfroedd, moroedd a'r aer sydd o'n cwmpas yn darparu ystod eang o wasanaethau hanfodol i ni. Maent yn creu swyddi ac incwm sy'n werth biliynau o bunnoedd, yn cynnig iechyd, gweithgareddau hamdden, chwaraeon a chyfleoedd dysgu i ni, yn darparu dŵr glân ac yn atal llifogydd, yn amsugno'n llygredd ac yn cynhyrchu bwyd, ynni a phren i ni.

Dyma'n system cynnal bywyd. Mae'n fiosffer fyw gymhleth sy'n cynnwys llawer o ecosystemau – sydd angen amrywiaeth iach o blanhigion ac anifeiliaid i weithio.

Mae cryn bryder ynglŷn â pha mor gyflym yr ydym yn colli bioamrywiaeth yn fyd-eang, a'r effaith gynyddol y mae'r newid yn yr hinsawdd yn ei gael ar yr ecosystemau hyn. Mae'r manteision a gawn o'r ecosystemau hyn dan fygythiad. Er cymaint o waith da sydd wedi'i wneud er mwyn gwarchod planhigion ac anifeiliaid a glanhau'n hamgylchedd, mae tystiolaeth o'r patrymau negyddol tymor hwy hyn yng Nghymru.

Hyd yma rydym wedi tueddu i edrych ar wahanol rannau o'r amgylchedd ar wahân yn hytrach na'u rheoli fel systemau. Nid yw'r dull hwn o reoli a gwarchod yr amgylchedd wedi bod yn llwyddiannus iawn, ac rydym wedi methu â phennu gwerth i nifer o'r manteision sy'n cael eu darparu gan yr amgylchedd.

Cymru'n arwain y ffordd

Mae cynnal ecosystemau iach yn llai costus na thrin problemau yn nes ymlaen. Er enghraifft, gall rheoli tir yn dda yn nalgylchoedd ein hafonydd gadw dŵr yn lân a lleihau llifogydd. Bydd ecosystemau sy'n gweithio'n dda yn well am wrthsefyll newid hinsawdd a thywydd eithafol. Gallai Cymru gael ei gweld fel y wlad gyntaf i weithredu'r "dull ecosystemau" hwn.

Dangosodd astudiaeth ymchwil a gwblhawyd yn ddiweddar ein bod yn cael rhwng deg a chan punt yn ôl am bob punt rydym yn ei buddsoddi yn yr amgylched naturiol. Yma yng Nghymru, mae'r amgylchedd yn cyfrannu o leiaf £8.8 biliwn i economi Cymru bob blwyddyn - 9% o gynnyrch mewnwladol crynswth Cymru ac un o bob chwe swydd yng Nghymru – ond gallai fod yn werth llawer mwy.

Dadl gref dros newid

Mae'r diffyg llwyddiant presennol a'r pwysau cynyddol a fydd i'w weld yn y dyfodol yn golygu bod dadl gref dros newid. Er mwyn cael y canlyniadau gorau o safbwynt cymdeithasol ac economaidd, rhaid i Gymru ailystyried o ddifrif sut y mae'n mynd i reoli a gwarchod ei hamgylchedd.

Mae Cymru Fyw yn chwilio am gytundeb newydd rhwng rheolwyr a rheoleiddwyr amgylcheddol, diwydiannau a byd masnach, a'r cyhoedd. Mae angen i bob sector, pob grŵp oedran, a phob cymuned roi gwarchod ein "system cynnal bywyd" ar ben eu rhestr blaenoriaethau.

Drwy wneud hyn, gall Cymru adlewyrchu ei chysylltiadau hanesyddol a diwylliannol cryf â'r amgylchedd naturiol. Dylem chwilio am ddull gweithredu penodol i Gymru, sy'n seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol orau a'r syniadau diweddaraf o bob cwr o'r byd.

Beth allai hyn ei olygu:

*I bobl*

Cyfle i fwynhau amgylchedd hygyrch, mewn modd cyfrifol, lle mae natur yn cael ei ystyried yn bwysig i'n hiechyd, ein haddysg a'n llwyddiant economaidd heddiw ac yn y dyfodol

*I wirfoddolwyr*

Cydnabyddiaeth o werth a phwysigrwydd ymdrech pob unigolyn sy'n cyfrannu tuag at amgylchedd iach.

*I bysgotwyr*

Afonydd, llynnoedd a moroedd sy'n cynnal pysgodfeydd iach drwy reoleiddio da sydd o fudd i bawb heddiw ac yn y dyfodol

*I ffermwyr, coedwigwyr a pherchnogion tir*

Bywoliaeth dda, lle mae darparu nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei wobrwyo a lle mae natur yn ffynnu

*I fywyd gwyllt*

Cynefinoedd mwy, cysylltiedig ac amrywiol, sy'n caniatáu gweithrediad ecolegol llawn ac yn cynnig ffyrdd o addasu i'r newid yn yr hinsawdd

*I ddatblygwyr*

System reoleiddio symlach sy'n seiliedig ar asesiad o'r perygl i ecosystemau a chanllawiau cliriach ynglŷn â'r hyn y dylid ei osgoi

*I ddiwydiannau sy'n cael eu rheoleiddio*

System fwy integredig o reoli'r amgylchedd sy'n syml ac yn gost-effeithiol o safbwynt gweinyddol ond yn gwarchod pob agwedd ar ein hasedau amgylcheddol

*I gynllunwyr*

Gwell penderfyniadau ynglŷn â defnydd o dir a dŵr, sy'n adlewyrchu'r holl gostau a'r manteision i'n cymdeithas, yn gwarchod bywyd gwyllt ac asedau amgylcheddol ond yn caniatáu datblygiadau yn y mannau cywir

*I lunwyr polisïau*

Datblygu cynaliadwy'n dod yn *egwyddor drefniadol ganolog* wrth ddatblygu a chyflawni pob polisi, a'r amgylchedd yn cael ei warchod neu ei wella bob amser

Gallwch chwithau gymryd rhan!

Darllenwch bapur ymgynghori *Cymru Fyw* a'r papurau cefndir.

Cyfrannwch tuag at y ffrydiau gwaith sy'n datblygu'r polisïau a'r camau gweithredu.

Anfonwch eich sylwadau i'r fforwm ymgynghori ar-lein neu ysgrifennwch atom.

Ewch ati i fwynhau byd natur, dysgu amdano a'i warchod!

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 13**
**PAPUR I'W NODI A**
**10 Chwefror 2011**

**Teitl: Y Diweddaraf am Droseddu yn erbyn Bywyd Gwyllt**

**Awduron: Y Rhingyll Ian Guildford, Heddlu De Cymru/Cyngor Cefn Gwlad Cymru**

***Cefndir/Cynnydd***

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y gweithgor atal troseddau yn erbyn bywyd gwyllt a gorfodi'r gyfraith, sy'n dod dan adain Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, ym Mhencadlys Heddlu Dyfed Powys ddydd Llun 29 Tachwedd 2010. Cadeirydd y cyfarfod oedd y Prif Uwcharolygydd Gwyn Thomas o Heddlu Dyfed Powys.

Tasg y gweithgor yw cael pawb i gydweithio drwy lunio strategaeth troseddau yn erbyn bywyd gwyllt, datblygu codau ymarfer a chytundebau rhannu data, datblygu blaenoriaethau ym maes troseddau yn erbyn bywyd gwyllt ar gyfer y Deyrnas Unedig a Chymru a threfnu cynhadledd flynyddol i drafod troseddau yn erbyn bywyd gwyllt.

Mae'r camau gweithredu sy'n deillio o gyfarfod cyntaf y gweithgor hwn i'w gweld drwy ddilyn y ddolen gyswllt isod:

http://www.biodiversitywales.org.uk/content/uploads/documents/Guidance%20Legislation/WC%20Enforcement%20Group%20Meeting%201%2029111201.doc

Cynhelir cyfarfod nesaf y grŵp hwn ar 2 Mawrth 2011 ym Mhencadlys Rhanbarthol yr Heddlu yn Aberhonddu.

Cynhelir Seminar Agored nesaf y Bartneriaeth Weithredu i Atal Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt ar 2 Mawrth yng Ngerddi Botaneg Brenhinol Kew, Llundain. Ceir mwy o wybodaeth, gan gynnwys ffurflenni archebu lle, ar wefan y Bartneriaeth Weithredu: http://www.defra.gov.uk/paw/

Mae adroddiad blynyddol 2010 Uned Genedlaethol Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt i'w weld drwy ddilyn y ddolen gyswllt isod:

http://www.defra.gov.uk/paw/pdf/nwcu-annual-report10.pdf

Ar 1 Ionawr 2011 adnewyddwyd y trwyddedau cyffredinol yng Nghymru. Mae llawer o newidiadau wedi'u gwneud i'r trwyddedau a gyhoeddwyd yn 2010, o ran rhywogaethau, dulliau a thelerau ac amodau eraill. Mae gwyddau Canada a hwyaid cochion wedi eu hychwanegu at rai trwyddedau cyffredinol ac mae adar y to, drudwy, gwylanod y penwaig, gwylanod cefnddu lleiaf a gwylanod

cefnddu mwyaf wedi eu tynnu oddi ar y rhan fwyaf o'r trwyddedau cyffredinol. Mae copïau o'r trwyddedau newydd i'w gweld drwy ddilyn y ddolen gyswllt isod:

http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/wildlifelicences/wildlifelicences/?skip=1&lang=cy

**Achosion**

Yn Hydref y llynedd, yn dilyn treial a barodd am 7 niwrnod yn Llys y Goron Caerdydd, cafwyd Anthony HOLWELL yn euog o 7 cyhuddiad yn ymwneud â rhedeg safle gwastraff anghyfreithlon a thrin a chadw gwastraff a reolir. Roedd ei gyd-ddiffynnydd, Stephen RICHARDS, eisoes wedi pledio'n euog i 17 trosedd tebyg, a oedd yn cynnwys pedwar trosedd yn ymwneud â chyflawni gwaith nad yw'n cael ei ganiatáu o fewn SoDdGA. Mae'r troseddau hyn i gyd yn ymwneud â gwaith a gyflawnwyd ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent – Llansanffraid. Ar adeg ysgrifennu hyn, roedd y diffynnydd, RICHARDS, heb ymddangos gerbron y llys i gael ei ddedfryd ac roedd gwarant i'w restio wedi'i chodi. Mae'r diffynnydd arall, HOLWELL, ar hyn o bryd yn y carchar am droseddau Blacmel.

Roedd yr achos hwn yn deillio o ymchwiliad ar y cyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Yr erlynydd oedd Asiantaeth yr Amgylchedd. Credir mai hwn oedd y tro cyntaf i Asiantaeth yr Amgylchedd weithredu fel asiant erlyn i'r Cyngor Cefn Gwlad mewn perthynas â throseddau dan Adran 28 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd).

Yn Hydref eleni bu swyddogion troseddau yn erbyn bywyd gwyllt ar hyd a lled Cymru'n cymryd rhan yn Ymgyrch Ramp. Roedd yr ymgyrch fyd-eang yn cael ei chyd-drefnu gan INTERPOL, ac aeth 51 o wledydd, ar draws y pum cyfandir, ati i dargedu'r fasnach anghyfreithlon mewn ymlusgiaid ac amffibiaid. Yn dilyn yr ymgyrch fyd-eang restiwyd pobl mewn gwahanol wledydd ym mhob cwr o'r byd, ac atafaelwyd miloedd o anifeiliaid a chynnyrch, a oedd yn werth dros 25 miliwn o Ewros. Yma yng Nghymru, daeth nifer o wahanol droseddau i'r fei ac mae ymholiadau'n dal i gael eu cynnal. Ceir rhagor o wybodaeth drwy ddilyn y ddolen gyswllt isod:

http://www.interpol.int/Public/ICPO/PressReleases/PR2010/PR089.asp

Mae dyn a oedd yn y gorffennol wedi taflu cwningen fyw i aligator ei bwyta wedi cyfaddef iddo dorri amodau'r gwaharddiad ar gadw anifeiliaid anwes a roddwyd iddo. Roedd y llys wedi barnu bod Damien French, a daflodd gwningen i mewn at yr aligator mewn sŵ, yn euog o greulondeb tuag at anifeiliaid, ac wedi ei wahardd rhag cadw anifeiliaid am 10 mlynedd. Pan aeth swyddogion bywyd gwyllt Heddlu'r Gogledd ac arolygwyr yr RSPCA i archwilio fflat French yn Russell Road, yn y Rhyl, y mis diwethaf daethant o hyd i anifeiliaid amrywiol. Yn llys ynadon Prestatyn, plediodd French, sy'n 24 oed,

yn euog i dorri amodau’r gorchymyn a chafodd ddirwy o £100. Gorchmynnwyd iddo hefyd dalu costau’r achos, sef £100.

Cafodd gŵr o Donypandy ddedfryd ohiriedig o garchar am dyllu am foch daear a gyrru cŵn i lawr ar eu holau. Roedd Christian Latcham, a ymddangosodd yn llys ynadon Rhondda, yn wynebu wyth cyhuddiad dan ddeddfau lles anifeiliaid a diogelu moch daear, a dywedwyd wrtho ei fod wedi cyflawni "creulondeb dychrynllyd". Cafodd ddedfryd o garchar am bum mis, wedi’i gohirio am flwyddyn, a chafodd ei wahardd rhag bod yn berchen ar gŵn am gyfnod amhenodol. Cafodd ei ddal ar ôl i’r heddlu ddod o hyd i luniau ar ei ffôn symudol. Dywedwyd wrth Latcham y dylai hefyd wneud 250 awr o waith cymunedol.

***Cynllun/Cynigion***

***Y Camau Gofynnol***

- Sefydlu tîm gorchwyl a gorffen i gyflawni’r cam nesaf NADDO
- Cadarnhau y gallwn barhau fel y nodir uchod DO
- Gofyn i bob un o aelodau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru roi sylwadau ar fformat yr adroddiad DO

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 13**
**PAPUR I'W NODI B**
**10 Chwefror 2011**

**Teitl: Cysylltu arbenigwyr bioamrywiaeth ag aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb: *iSpot***

**Awdur: Dr Madeleine Havard, Mentor Bioamrywiaeth y Brifysgol Agored ar gyfer Cymru**

***Cefndir/Cynnydd***

***iSpot – eich lle i rannu natur*** (www.iSpot.org.uk) yw'r wefan rhwydweithio cymdeithasol sy'n trafod byd natur. Datblygwyd y wefan fel rhan o'r Arsyllfa Bioamrywiaeth yn Adran Gwyddorau Bywyd y Brifysgol Agored, ac mae'n adnodd hawdd ei ddefnyddio er mwyn rhannu a darparu gwybodaeth i unrhyw un sydd â diddordeb ym myd natur, o'r unigolyn sy'n gwylio rhaglenni natur yn achlysurol i'r naturiaethwr mwy gwybodus. Lansiwyd y wefan ym Mehefin 2009 ac erbyn hyn mae ganddi dros 8,000 o ddefnyddwyr cofrestredig. Yn Hydref 2010 enillodd Wobr Cyfryngau Newydd ARKive yn y Gwobrau Panda rhyngwladol a ddyfernir yng Ngŵyl Wildscreen.

Fel rhan o'r prosiect Labordai Awyr Agored (OPAL), sy'n cael ei ariannu drwy'r Gronfa Loteri Fawr, mae'r Brifysgol Agored yn ymwneud â nifer o brosiectau bioamrywiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys: cynorthwyo tîm o Fentoriaid Bioamrywiaeth yn Lloegr i hyrwyddo *iSpot*; datblygu a defnyddio Allweddi Bayesaidd (y cyfeirir atynt ar wefan *iSpot*); a chwrs newydd gan y Brifysgol Agored sy'n dysgu unigolion sut i arolygu a monitro byd natur yn lleol: *S159 Neighbourhood Nature*.

Yn ystod haf 2010 cafodd llwyddiant y cynllun ei gydnabod, pan ddyfarnwyd grant o Gronfa Ddatblygu'r Brifysgol Agored i benodi rhagor o Fentoriaid Bioamrywiaeth, yng Nghymru, yr Alban ac Iwerddon. Y nod yw annog pobl y Deyrnas Unedig ac Iwerddon i ymddiddori mwy ym myd natur.

***Cynllun/Cynigion***

Hoffai'r Brifysgol Agored annog cynifer o bobl ag sy'n bosib i ddefnyddio *iSpot*. Yn ogystal ag annog pobl i anfon lluniau a disgrifiadau o bethau yr hoffent wybod mwy amdanynt, rydym yn awyddus i gael mwy o "arbenigwyr" i ddefnyddio'r wefan. Mae *iSpot* yn gyfle gwych i rannu gwybodaeth a brwdfrydedd am bob agwedd ar fyd natur, ac i ddarganfod mwy am natur yng Nghymru. Mae llawer o ddigwyddiadau diddorol iawn wedi'u cofnodi ar *iSpot*, gan gynnwys math arbennig o wyfyn (*Pryeria sinica*) yn cael ei weld ym Mhrydain am y tro cyntaf, a hynny gan ferch ifanc 6 oed a'i thad!

Gall unrhyw un ddefnyddio'r wefan. Bydd angen i chi gofrestru os ydych am anfon llun o rywogaeth i'w hadnabod, ond mae'n broses gyflym, syml a di-dâl. Mae'n bosib creu dolen gyswllt ffurfiol ar wefan *iSpot* a fydd yn arwain i wefannau sefydliadau eraill. Gellir gwneud hyn pan fydd cynrychiolydd o'r sefydliad yn cofrestru ar y wefan, a'r cynrychiolydd hwnnw (a/neu bobl eraill o'r sefydliad hwnnw) yn cytuno i gyfrannu i'r wefan: adnabod rhywogaethau, cefnogi sylwadau adnabod ac ychwanegu sylwadau. Byddem hefyd yn annog sefydliadau i roi dolenni cyswllt yn arwain i *iSpot* ar eu gwefannau hwy.

Mae gwefan *iSpot* yn atyniad defnyddiol mewn digwyddiadau a diwrnodau agored, a gellir darparu hyfforddiant a deunydd ategol. Gellir cofnodi deilliant digwyddiadau arbennig fel diwrnodau Blits Bioamrywiaeth mewn man penodol ar y wefan, ynghyd â chofnodion o safle arbennig, megis gwarchodfa natur. Mae *iSpot* drwy hyn yn cynhyrchu ac yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol, yn ogystal ag annog pobl i ymddiddori mewn natur yn eu hardaloedd lleol.

Mae'r wefan yn cael ei datblygu ar hyn o bryd er mwyn ei gwneud yn fwy ymarferol a sicrhau bod modd cael gafael ar wybodaeth ddaearyddol yn haws, fel bod ein Canolfannau Cofnodion Lleol, Grwpiau Cofnodi, ac ati yn gallu gwneud defnydd uniongyrchol o'r wybodaeth sy'n cael ei chadw yn y gronfa ddata.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dosbarthu ac, yn fwyaf arbennig, mewn defnyddio Allweddi Bayesaidd, rydym yn chwilio am arbenigwyr mewn ystod eang o grwpiau i helpu i ddatblygu rhagor o allweddi, a byddem yn falch iawn o glywed gennych.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag: m.s.c.havard@open.ac.uk, ac edrychwch ar www.iSpot.org.uk

***Y Camau Gofynnol***

- Awgrymu y dylid annog holl aelodau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i ddefnyddio *iSpot*, fel unigolion ac fel sefydliadau.

- Rhoi'r ddolen gyswllt yn arwain i *iSpot*, sydd eisoes ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, mewn lle mwy amlwg.

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 13**
**PAPUR I'W NODI D**
**10 Chwefror 2011**

**Teitl: Gwerthuso ac Ymestyn y Cynllun Prentisiaeth Cen**

**Awduron:** Trevor Dines a Ray Woods (Plantlife Cymru) ac Alan Hale (CCGC).

***Cefndir/Cynnydd***

- Mae chwe deg naw (12.7%) o'r rhywogaethau sydd yn rhestr blaenoriaeth Adran 42 yn gen, ac mae dwy gymuned o gen wedi'u rhestru. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae nifer y swyddi cyflogedig yng Nghymru sy'n ymwneud â gwarchod cen yn y maes yn gywerth ag **1.5** swydd gyflogedig (dwy swydd hanner amser yn Plantlife Cymru a swydd hanner amser arall yng Nghyngor Cefn Gwlad Cymru) a dim ond **tri neu bedwar** o gofnodwyr cen yn y maes sy'n cael eu hystyried yn arbenigwyr yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r rhain i gyd dros 50 ac mae'r hynaf yn 63 oed.

- Sefydlwyd y cynllun Prentisiaeth Cen â chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â'r prinder arbenigwyr cen yn y maes yng Nghymru yn dilyn cynllun llwyddiannus yn yr Alban a ariannwyd gan Dreftadaeth Naturiol yr Alban. Mae'r cynllun yn darparu rhywfaint o arian ar gyfer llyfrau a chyfarpar, ond mae'n dibynnu ar barodrwydd sefydliadau i neilltuo amser yn eu rhaglenni gwaith i alluogi staff i ddarparu hyfforddiant arbenigol neu fynychu'r cyrsiau fel prentisiaid.

- Ers ei sefydlu mae tua 25 o bobl wedi ymwneud â'r cynllun Prentisiaeth Cen. Staff CCGC yw'r rhan fwyaf o'r rhain, ond maent hefyd yn cynnwys 5 o Lywodraeth Cynulliad Cymru, 1 o Cofnod, 1 o Natur, 1 o awdurdod lleol ac 1 person sydd wedi graddio yn ddiweddar. Mae'r cynllun yn annog y sefydliadau sy'n cymryd rhan i roi amser i'w staff fynychu'r gweithdai a'r cyfarfodydd maes.

- O'r rhai hynny sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun, mae tri wedi dangos cymhwysedd da a gallent fynd ymlaen i fod yn astudwyr cen da yn y maes. Mae'n anodd asesu cynnydd unigolion gan nad oes dull gwerthuso ffurfiol, ond bydd angen llawer iawn mwy o hyfforddiant ar yr unigolion hyn cyn y gallant gael eu hystyried yn arbenigwyr.

- Darperir hyfforddiant drwy gyfrwng gweithdai a chyfarfodydd maes. Mae'r staff sy'n gweinyddu'r cynllun, yn paratoi'r wefan ac yn darparu'r hyfforddiant hwn, yn dod o CCGC, Plantlife Cymru, Llywodraeth Cynulliad

Cymru ac Amgueddfa Cymru. Maent wedi treulio cyfanswm o tua 31 diwrnod yn darparu'r gwasanaethau hyn heb unrhyw arian ychwanegol.

- Mae gwefan dda wedi'i chreu (**www.wales-lichens.org.uk**) a gwelwyd cynnydd cyson yn nifer y rhai sydd wedi ymweld â hi; ym mis Hydref cafwyd cyfartaledd o 49 ymweliad ar wahân ac edrychwyd ar 194 o dudalennau yn ddyddiol. Mae'r ystadegau llawn ar gyfer y wefan i'w gweld yn Atodiad A.

- Mae'r cynllun yn sicr wedi datblygu cymhwysedd rhai pobl i safon dda. Mae hefyd wedi ehangu ymwybyddiaeth gyffredinol o gen, a materion cadwraeth sy'n gysylltiedig â chen, ymhlith llawer o bobl eraill. Mae'r elfen ymwybyddiaeth gyffredinol hon yn bwysig iawn, a byddai'n fanteisiol pe gallem gael pobl o sefydliadau eraill, fel y Comisiwn Cenedlaethol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac ati, i ymuno â'r cynllun.

- Byddai rhagor o weithdai, a llawer mwy o gyfleoedd i brentisiaid ymuno â'r astudwyr cen profiadol yn y maes, yn fuddiol iawn. Prinder amser ar ran yr hyfforddwyr yw'r broblem. Yn fwyaf arbennig, byddai Alan Hale (CCGC) yn hoffi cael mwy o amser i wella'r wefan ac ymdrin â materion trefniadol.

- Yn ddelfrydol, byddai "bwrsariaeth" yn cael ei darparu er mwyn helpu'r 2-3 prentis mwy cymwys i wella digon ar eu sgiliau cen er mwyn iddynt allu bod yn arbenigwyr amser llawn. Dyma beth sydd wedi digwydd yn yr Alban, ac mae'n cyflawni'r nod o hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o astudwyr cen arbenigol. Fan lleiaf, dylai rhywfaint o arian fod ar gael i leihau costau'r rhai hynny nad ydynt yn cael arian gan sefydliad (ar gyfer costau teithio ac ati).

- Mae'n anos datrys problem prinder amser hyfforddwyr. Mae problem benodol yng ngogledd Cymru. Byddai rhywfaint o arian i dalu i astudwyr cen allanol ymweld â'r ardal yn sicr o gymorth.

### *Cynllun/Cynigion*

Hoffem weld y canlynol:

1. Y cynllun Prentisiaeth Cen yn cael ei ymestyn. Mae wedi cael canlyniadau da iawn, ac mae'n gwella trefniadau cofnodi a gwerthfawrogiad o'r grwpiau hynny o'r rhywogaethau Adran 42 sydd o bosib yn wynebu'r bygythiad mwyaf ac sydd â llai o ddealltwriaeth ohonynt, ar adeg pan mae nifer yr arbenigwyr cyflogedig yn dal i leihau. Mae ar y cynllun angen ymrwymiad a chefnogaeth hirdymor gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r sefydliadau sy'n ymwneud ag ef.

2. Y nifer sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn cynyddu wrth i staff o ystod ehangach o sefydliadau, fel y Comisiwn Coedwigaeth a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gael caniatâd ac anogaeth i gymryd rhan yn y gweithdai a'r cyrsiau maes.

3. PBC yn ceisio darparu rhywfaint o gymorth ariannol i hyfforddwyr cyrsiau. Mae hwn yn bwynt hollbwysig gan fod yr hyfforddwyr yn darparu'r gwasanaeth o fewn eu rolau presennol ar hyn o bryd heb unrhyw arian ychwanegol. Byddai arian i annog astudwyr cen allanol i ymweld a chynnal gweithdai a chyrsiau maes yn ddefnyddiol iawn.

4. PBC yn ceisio darparu bwrsariaeth i hyfforddi arbenigwyr er mwyn galluogi 2-3 prentis cymwys i wella'u sgiliau a dod yn astudwyr cen amser llawn. Dyma beth sy'n digwydd yn yr Alban, ac mae wedi cynhyrchu astudwyr cen sydd â digon o sgiliau i ddod yn ymgynghorwyr neu i ymgymryd â swyddi amser llawn.

***Y Camau Gofynnol***

- Cadarnhau y gallwn barhau fel yr awgrymir uchod DO/NADDO

- Gofyn i holl aelodau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ganiatáu i'w staff fynychu cyrsiau a digwyddiadau'r Brentisiaeth Cen. DO/NADDO

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 13**
**PAPUR I'W NODI: F**
**10 Chwefror 2011**

***Teitl: Gwaith Cynllunio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru***

***Awdur: Sean McHugh, Tîm Cymorth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru***

## *Cefndir/Cynnydd*

***Cynhadledd Bioamrywiaeth PBC 2011***
Cynhelir cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC) eleni ar 14 ac 15 Medi yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Croesewir syniadau ar gyfer thema'r gynhadledd; bydd y gynhadledd yn dilyn yr un drefn gyffredinol â'r gynhadledd lwyddiannus a gynhaliwyd ym Mangor y llynedd.

Mae trafodion Cynhadledd PBC a Chynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth 2010 i'w gweld ar wefan PBC: http://www.biodiversitywales.org.uk/wbp_activities-18.aspx

***Y Camau Gofynnol***
1. Cytuno ar thema cynhadledd PBC eleni
2. Dosbarthu gwybodaeth am ddyddiad a lleoliad cynhadledd PBC
3. Awgrymu/gwirfoddoli siaradwyr/pynciau ar gyfer y gynhadledd

***Wythnos Bioamrywiaeth Cymru 2011***
Dyddiad Wythnos Bioamrywiaeth Cymru yw 4 - 12 Mehefin.
Bwriad yr Wythnos yw cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth i'n cymdeithas a chanlyniadau colli bioamrywiaeth. Roedd y digwyddiadau a gynhaliwyd yn 2010 yn cynnwys Ffermydd Agored ar Ddydd Sul; 'Mynd yn Wyllt' – ffair gymunedol fawr yn ymwneud â bywyd gwyllt a'r amgylchedd; arddangosfa bioamrywiaeth mewn gŵyl gerddoriaeth fawr ac arddangosfa ryngweithiol symudol 'Cyfarfod y cymdogion', yng nghanol trefi er mwyn dal sylw siopwyr a oedd yn mynd heibio a chynyddu eu hymwybyddiaeth (mae'n bosib y gellid defnyddio'r fformat mewn rhannau eraill o Gymru). Bydd tîm cymorth PBC yn cydgysylltu digwyddiadau'r Wythnos, y nwyddau a system addewidion ar-lein ar ran Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Mae gwerthusiad o Wythnos Bioamrywiaeth Cymru 2010 i'w weld yn:
http://www.biodiversitywales.org.uk/wales_biodiversity_week-121.aspx

**Mentrau Byd-eang i godi Ymwybyddiaeth o Fioamrywiaeth**
Cynhelir Blwyddyn Ryngwladol Coedwigoedd yn 2011 ac mae'n debyg y bydd y Cenhedloedd Unedig yn cyhoeddi Degawd o Fioamrywiaeth o 2011 hyd 2020. Dethlir Diwrnod Rhyngwladol Bioamrywiaeth ar 22 Mai ac mae angen digwyddiadau i ddathlu'r Diwrnod. Rhestrir dyddiadau o bwys yn y calendr amgylcheddol yn Atodiad 1. Sylwer y bydd gwerthusiad o ymgyrch Blwyddyn Ryngwladol Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig 2010 ar gael yn y dyfodol agos gan Defra.

***Y Camau Gofynnol***
4. Partneriaid i gytuno i ddosbarthu gwybodaeth am ddyddiad Wythnos Bioamrywiaeth Cymru (4 - 12 Mehefin)
5. Partneriaid i gytuno i gynnal digwyddiadau Wythnos Bioamrywiaeth Cymru / Blwyddyn Ryngwladol Coedwigoedd a Diwrnod Rhyngwladol

Bioamrywiaeth a/neu gydgysylltu â Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol sy'n ymwneud â digwyddiadau

6. Partneriaid i gytuno i anfon manylion am ddigwyddiadau Wythnos Bioamrywiaeth Cymru / Blwyddyn Ryngwladol Coedwigoedd a Diwrnod Rhyngwladol Bioamrywiaeth i ysgrifenyddiaeth PBC/Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (Sean McHugh) er mwyn cael cyhoeddusrwydd

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 13**
**Papur 03: ATODIAD 01**
**10 Chwefror 2011**

# Biodiversity Year Planner 2011

| International Year of Forests 2011 | |
|---|---|
| International Year of Forests | www.un.org/en/events/iyof2011 |
| Year of the Bat 2011-2012 | www.yearofthebat.org |
| Big Garden Bird Watch 29th-30th Jan | www.rspb.org.uk/birdwatch |
| World Wetlands Day 2nd Feb | www.ramsar.org/cda/en/ramsar-activities-wwds-wwd2011index/main/ramsar/1-63-78%5E24770_4000_0__ |
| National Nest Box Week 14th -21st Feb | www.bto.org/nnbw/index.htm |
| National Science Week 11th –20th March 2011 | www.britishscienceassociation.org/web/index.htm |
| Climate Week 21st -27th March | www.climateweek.com/ |
| International Dawn Chorus Day 1st May | www.idcd.info/events-in-your-area |
| The International Day for Biological Diversity 22nd May – Biology & Forests | www.cbd.int/idb |
| World Environment Day 5th June | www.unep.org/wed/2009/english |
| Wales Biodiversity Week 4th -12th June | www.biodiversitywales.org.uk |
| National Marine Week 30th July - 14th August 2011 | www.wildlifetrusts.org/?section=events:summer:marineweek |
| Wales Biodiversity Partnership Conference 14th-15th Sept | www.biodiversitywales.org.uk |
| Great Nut Hunt Autumn | www.greatnuthunt.org.uk |
| National Tree Week Nov-Dec (tbc) | www.treecouncil.org.uk |
| International Volunteer Day 5th Dec (tbc) | www.unvolunteers.org/ |

**GRŴP LLYWIO PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 13**
**PAPUR I'W NODI G**
**10 Chwefror 2011**

**Teitl: Newidiadau i'r Rhestr Adran 42 sydd wedi cael ei Chyhoeddi**

**Awdur:** Trevor Dines, Plant Link Cymru a'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau.

### *Cefndir/Cynnydd*

Ers cyhoeddi rhestr Adran 42 ar gyfer Cymru, mae angen gwneud nifer o newidiadau i ddiweddaru enwau tacsonomaidd, rhywogaethau sydd wedi cael eu cofnodi mewn camgymeriad yng Nghymru (ac, o ganlyniad, na ddylai gael eu cynnwys ar y rhestr), a rhywogaethau Cynllun Gweithredu'r Deyrnas Unedig ar Fioamrywiaeth sydd bellach wedi cael eu cofnodi yng Nghymru am y tro cyntaf (ac a ddylai felly gael eu cynnwys ar y rhestr).

Mae'n bwysig nodi nad yw'r papur hwn yn cynnwys rhywogaethau y mae eu statws (lefel y bygythiad a dethol ar sail meini prawf Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth) wedi cael ei ailasesu ac a fyddai'n gymwys i gael eu cynnwys erbyn hyn.

## NEWIDIADAU I'R RHESTR ADRAN 42 SYDD WEDI CAEL EI CHYHOEDDI

Ymdrinnir â thri math o newid yn yr adolygiad hwn:
1. Newidiadau lle mae diwygiadau tacsonomaidd a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi newid yr enw cyhoeddedig presennol (h.y. nid yw'r tacson ei hun wedi newid, ond mae ei enw wedi newid). Yn yr achosion hyn mae'r enw ar y rhestr Adran 42 yn newid.
2. Newidiadau lle gwyddys yn awr bod tacsonau Cynllun Gweithredu'r Deyrnas Unedig ar Fioamrywiaeth wedi cael eu cofnodi mewn camgymeriad ac nad ydynt erioed wedi cael eu cofnodi yng Nghymru. Yn yr achosion hyn dylai'r rhywogaethau gael eu tynnu oddi ar y rhestr Adran 42.
3. Newidiadau lle mae rhywogaethau Cynllun Gweithredu'r Deyrnas Unedig ar Fioamrywiaeth wedi cael eu cofnodi yng Nghymru ers cyhoeddi'r rhestr Adran 42 (sy'n cynnwys pob un o rywogaethau Cynllun Gweithredu'r Deyrnas Unedig ar Fioamrywiaeth sydd wedi cael ei gofnodi yng Nghymru) yn 2006. Yn yr achosion hyn mae rhywogaethau newydd yn ymddangos ar y rhestr Adran 42.

**1. Newidiadau i enwau tacsonomaidd**

Dylid newid enwau'r rhywogaethau hyn ar y rhestr Adran 42:

| Grŵp Tacson | Enw presennol ar y rhestr Adran 42 | Enw NEWYDD i ymddangos ar y rhestr Adran S42 | Rheswm dros y newid Cyhoeddi enw diwygiedig yn |
|---|---|---|---|
| Planhigyn fasgwlaidd | *Cerastium arcticum* | *Cerastium nigrescens* | Stace (2010)* |
| Planhigyn fasgwlaidd | *Dactylorhiza purpurella ssp. cambrensis* | *Dactylorhiza purpurella var. cambrensis* | Stace (2010)* |
| Planhigyn fasgwlaidd | *Euphrasia anglica* | *Euphrasia officinalis ssp. anglica* | Stace (2010)* |
| Planhigyn fasgwlaidd | *Euphrasia rostkoviana ssp. montana* | *Euphrasia officinalis ssp. monticola* | Stace (2010)* |
| Planhigyn fasgwlaidd | *Monotropa hypopitys* | *Hypopitys monotropa* | Stace (2010)* |
| Planhigyn fasgwlaidd | *Monotropa hypopitys ssp. hypophegea* | *Hypopitys monotropa ssp. hypophegea* | Stace (2010)* |
| Planhigyn fasgwlaidd | *Monotropa hypopitys ssp. hypopitys* | *Hypopitys monotropa ssp. monotropa* | Stace (2010)* |
| Bryoffyt | *Cryphaea lamyana* | *Dendrocryphaea lamyana* | Hill et al. (2008)** |
| Bryoffyt | *Dicranum bergeri* | *Dicranum undulatum* | Hill et al. (2008)** |
| Bryoffyt | *Funaria pulchella* | *Entosthodon pulchellus* | Hill et al. (2008)** |
| Cen | *Parmelina quercina* | *Parmelina carporrhizans* | Smith et al. (2009)*** |

* Stace, C.A. (2010). New Flora of the British Isles, Trydydd Argraffiad. Gwasg Prifysgol Caergrawnt, Caergrawnt.
** Hill, M.O., Blackstock, T.H., Long, D.G. a Rothero, G.P. (2008). A Checklist and Census Catalogue of British and Irish Bryophytes. Cymdeithas Fryolegol Prydain / British Bryological Society, Middlewich.
*** Smith, C. W., Aptroot, A., Coppins, B. J., Fletcher, A., Gilbert, O. L., James, P. W. a Wolseley, P. A. (gol.). (2009). The Lichens of Great Britain and Ireland. Cymdeithas Brydeinig Cen / The British Lichen Society, Llundain.

**2. Rhywogaethau sydd wedi cael eu cofnodi mewn camgymeriad ac nad ydynt erioed wedi cael eu cofnodi yng Nghymru**

Dylai'r rhywogaethau a ganlyn gael eu tynnu oddi ar y rhestr Adran 42:

| Grŵp Tacson | Rhywogaeth Adran 42 wedi ei chofnodi mewn camgymeriad | Ffynhonnell y wybodaeth |
|---|---|---|
| Cen | *Arthothelium dictyosporum* | Ray Woods |

**3. Rhywogaethau presennol Cynllun Gweithredu'r Deyrnas Unedig ar Fioamrywiaeth sydd wedi cael eu cofnodi o'r newydd yng Nghymru**

Dylai'r rhywogaethau a ganlyn gael eu hychwanegu at y rhestr Adran 42:

| Grŵp Tacson | Rhywogaeth Cynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth i'w hychwanegu at y rhestr Adran 42 | Blwyddyn a lleoliad y cofnod | Ffynhonnell y wybodaeth |
|---|---|---|---|
| Bryoffyt | *Daltonia splachnoides* (Daltonia Gwyddelig) | Coedwig Brechfa, 2010 | Sam Bosanquet |
| Bryoffyt | *Orthotrichum obtusifolium* (Mwsogl gwrychog dail-blaengrwn) | Aberystwyth, 2008 | Sam Bosanquet |
| Bryoffyt | *Seligeria oelandica* (Gwrychog-y-graig Iwerddon) | Craig-y-Cilau, 2009 | Sam Bosanquet |
| Bryoffyt | *Sphagnum balticum* (Migwyn y Baltig) | Ceredigion, 2008 | Sam Bosanquet |
| Cen | *Cryptolechea carneolutea* | Stackpole 2008 | Bryan Edwards |
| Ffwng | *Hypocreopsis rhododendri* | Coedwig Brechfa, 2009 | Sam Bosanquet |

Yn ychwanegol at hyn, hoffem weld y rhywogaethau canlynol o fryoffytau o Gynllun Gweithredu'r Deyrnas Unedig ar Fioamrywiaeth yn cael eu hychwanegu at y rhestr Adran 42 am y rhesymau a roddir. Cawsant eu hepgor o'r rhestr Adran 42 wreiddiol mewn camgymeriad ac mae hynny'n atal gwaith i'w diogelu yng Nghymru:

*Micromitrium tenerum* (Cor-fwsogl) – Mwsogl byrhoedlog, sy'n tyfu o gwmpas llynnoedd a chronfeydd dŵr, a gofnodwyd ym Môn yn 1971. Dim ond yn yr haf pan mae lefel y dŵr yn isel iawn y mae i'w weld, ac mae wedi cael ei

ailddarganfod yn ne-ddwyrain Lloegr yn ddiweddar ar ôl degawdau o beidio â chael ei weld o gwbl. Mae'n debygol iawn ei fod yn dal i fodoli ym Môn.

*Weissia multicapsularis* (Mwsogl minfoel aml-ffrwythog) – Cofnodwyd y rhywogaeth hon yn Sir Fynwy yn 1981 ac mae'r un tacson yn dal i fodoli ger safle 1981. Mae angen dadansoddiad DNA er mwyn sefydlu'r berthynas rhwng y planhigion hyn a'r unig *W. multicapsularis* sy'n cael ei gydnabod yn swyddogol, sy'n bodoli yng Nghernyw. Er hyn, mae'r canlyniadau amodol yn awgrymu eu bod o'r un rhywogaeth.

***Cynllun/Cynigion***

Gofynnwn i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru dderbyn y diwygiadau uchod yn ffurfiol a sicrhau bod y rhestr Adran 42 sydd ar gael i'w llwytho i lawr o wefan y Bartneriaeth yn cael ei newid i'w cynnwys.

***Y Camau Gofynnol***

- Cadarnhau y gallwn barhau fel y nodir uchod DO/NADDO